



Building
Communities Trust
Ymddiriedolaeth
Adeiladu Cymunedau



Cryfhau Cymunedau yng Nghymru

Cyfleoedd a rhwystrau i weithredu cymunedol yng Nghymru



Cynnwys

1.	Crynodeb Gweithredol.....	4
2.	Cyflwyniad	8
3.	Gweithredu Cymunedol yng Nghymru.....	9
	Beth rydym yn ei olygu wrth weithredu cymunedol	9
	Cymunedau'n gweithredu drostyn nhw eu hunain	10
	Nid oes un ateb sy'n addas i bawb	12
	Heriau wrth redeg seilwaith cymdeithasol gan y gymuned	13
4.	Diffyg Cyswllt â Llywodraeth a'r Sector Cyhoeddus	15
	Llywodraeth yn gwneud pethau dros gymunedau, nid ar y cyd â nhw	15
	Llai o allu i ddylanwadu ar benderfyniadau.....	16
	Nodau hirdymor ond cyllido byrdymor	17
5.	Agenda Cymru ar Lesiant a Chynnwys Cymunedau.....	19
	Cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	19
	Posibiliadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.....	22
	Cymunedau a chyrrff cyhoeddus yn cydweithio er mwyn llesiant.....	23
6.	Effaith Cyni	24
	Heriau o ganlyniad i enciliad y wladwriaeth a chynnydd yn y galw	24
	Newid yn rôl sefydliadau cymunedol.....	26
7.	Gweledigaeth a Strategaeth, Argyfwng a Newid.....	28
	Gwagle polisi	28
	Argyfwng a newid	29
8.	Polisiau ar gyfer Gweithredu Cymunedol	31
	Buddsoddi mewn gweithredu cymunedol a seilwaith cymdeithasol	31
	Datblygu gweledigaeth a strategaeth genedlaethol gan gymunedau ac ar eu cyfer	34
	Gwella'r cyd-ddealltwriaeth a'r cydweithio rhwng cymunedau a chyrrff cyhoeddus	36
9.	Casgliad.....	38

Ffigurau

Ffigur 1: Effaith gweithredu cymunedol	9
Ffigur 2: Asedau cymunedol yn ôl ardal awdurdod lleol yng Nghymru	10
Ffigur 3: Sbardunau gweithredu cymunedol	12
Ffigur 4: Canran y bobl yng Nghymru sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol	17
Ffigur 5: Toriadau yng ngwariant gwasanaethau llywodraeth leol yn ôl gwasanaeth, 2009-10 i 2016-17	24

1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â harneisio cryfderau a sgiliau pobl leol fel y gallant adeiladu'r seilwaith cymdeithasol a siapio'r gwasanaethau sydd arnynt eu hangen a'u heisiau yn eu hardal. Rydym yn galw'r broses hon yn weithredu cymunedol ac yn credu ei bod yn allweddol ar gyfer cryfhau cymunedau yng Nghymru er mwyn gwella llesiant, cydnerthedd a chyfleoedd pobl leol.¹

Yr allwedd i lwyddiant y broses hon yw bod Llywodraeth a chyrff cyhoeddus yn cymryd rhan ynddi. Nid yw hyn yn digwydd ar hyn o bryd i'r graddau sy'n bosibl ac yn ddymunol, er gwaethaf uchelgais y Llywodraeth i gydweithio'n well â phobl a chymunedau ac er bod rhai enghreifftiau lleol o ymarfer da. Yn rhy aml mae Llywodraeth a chyrff cyhoeddus yn disgwyl y bydd ymgysylltu cymunedol, cydweithio a seilwaith cymdeithasol yn datblygu o fewn gwagle, gan anghofio'r ffaith bod gweithredu cymunedol yn hanfodol i bob un o'r rhain.

Er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, roeddem wedi hwyluso sgwrs genedlaethol â mwy na 250 o bobl a ddaeth i 20 o ddiwyddiadau a gynhaliwyd ledled Cymru. Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn gweithio neu'n gwirfoddoli mewn sefydliadau cymunedol. Roeddem hefyd wedi ymchwilio er mwyn mapio asedau cymunedol yng Nghymru ac wedi cynnal adolygiad o bolisi, gan edrych ar y ffactorau sy'n rhwystro ac yn hwyluso gweithredu cymunedol.

Negeseuon allweddol

Gall cymunedau weithredu drostyn nhw eu hunain ond byddant yn gwneud yn well mewn amgylchedd mwy cefnogol

Mae gweithredu cymunedol a sefydliadau cymunedol o lawer math wedi datblygu ledled Cymru, a'r rhain yn cyfrannu'n helaeth at greu cymunedau mwy cydnerth a chynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi'u dosbarthu'n wastad ac mae gwahaniaethau allweddol rhwng ardaloedd gwledig a threfol ac ar sail economaidd-gymdeithasol.²

Roedd grwpiau cymunedol y buom yn siarad â nhw wedi nodi nad oes 'un ateb sy'n addas i bawb' a bod pob cymuned yn wahanol. Roeddent hefyd wedi pwysleisio bod angen gwell dealltwriaeth gan gyrff cyhoeddus o rychwant a gallu'r gweithredu cymunedol a'r asedau cymunedol yn eu hardal, fel y gallant dargedu cymorth a sicrhau nad ydynt yn dyblygu darpariaeth bresennol yn y gymuned. Roeddent hefyd wedi dweud bod 'hybu ymwybyddiaeth, hyder a gallu cymunedau' yn broses araf sy'n galw am weithredu hirdymor i feithrin gallu dan arweiniad y gymuned. Fodd bynnag, hyd yn oed lle mae gweithredu

¹ Institute of Health Equity, 2020, *The Marmot Review 10 Years On, Community Actions*, t.10

BCT, 2018, *Our Local Economies: Communities Building Prosperity*, t.9

² BCT mewn partneriaeth â WCVA, Canolfan Cydweithredol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru ac Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, Mai 2020 (i'w gyhoeddi), *Mapping Community Assets in Wales*, t. 11-14

cymunedol wedi datblygu, bydd grwpiau cymunedol yn aml yn wynebu heriau wrth drosglwyddo asedau cyhoeddus i'w dwylo a sicrhau cyllid ar sail gynaliadwy.

Mae diffyg cyswllt rhwng Llywodraeth, cyrff cyhoeddus a chymunedau yn rhwystr i weithredu cymunedol, er bod enghreifftiau o gydweithio ar draws sectorau

Mae pobl yng Nghymru'n teimlo'n fwyfwy analluog i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.³ Mae nifer mawr o grwpiau cymunedol yn croesawu'r uchelgais ym mholsi Llywodraeth Cymru i'w cynnwys i fwy o raddau, ond mae teimlad nad yw 'geiriau canmoladwy yn cael eu hategu gan weithredu'. Gwelir bod mesurau cyni yn cael effaith ar hyn, ond mae grwpiau'n dweud o hyd mai 'modelau diffyg ar gyfer cymunedau sy'n cael y lle blaenaf ym meddwl llywodraeth' a bod cyrff cyhoeddus 'yn gweithredu dros ac nid ar y cyd' â phobl a chymunedau. Maent hefyd yn sôn am ffyrdd o weithio sydd wedi ymwreiddio yn y sector cyhoeddus sy'n cael eu hamlygu drwy gyfathrebu gwael, diffyg ymddiriedaeth, amharodrwydd i fentro, gweithio digyswllt, rhagfarn broffesiynol a diffyg brwdfrydedd ymysg staff, a bod y rhain yn rhwystrau mawr i ragor o weithredu cymunedol.

Er gwaethaf y rhwystrau hyn, mae rhai grwpiau cymunedol wedi cynnig enghreifftiau o gydweithio effeithiol â chyrff cyhoeddus, wedi'i seilio'n aml ar gysylltiadau ag unigolion ac adrannau. Maent yn sôn am helpu swyddogion i 'weld y cysylltiadau' rhwng eu dyletswyddau statudol a dymuniadau ac anghenion cymunedau. Maent hefyd yn nodi'r buddion o gael staff sector cyhoeddus sydd wedi gweithio mewn sefydliadau cymunedol ac sy'n eu deall.

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn fwy effeithiol o ran sicrhau gweithredu cymunedol na Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae diffyg yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng nghyswllt datblygu gweithredu cymunedol, ac nid yw dyletswydd cyrff cyhoeddus i gynnwys pobl a chymunedau wedi cael ei diffinio'n glir a chyson ac nid oes darpariaeth briodol ar gyfer ei hariannu a'i gwireddu.

Er hynny, mae grwpiau cymunedol wedi cyfeirio at nifer mawr o enghreifftiau o gydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector cymunedol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cael ei briodoli'n rhannol i'r ffaith na chafwyd toriadau difrifol ar wariant cyhoeddus yn y meysydd hyn. Mae hefyd yn ganlyniad i'r ffaith bod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn gofyn am ddull mwy ataliol o weithredu sy'n gyson â mesurau cyni, a'i bod yn rhoi dyletswyddau cliriach a chryfach ar gyfrif cyhoeddus i hyrwyddo camau i ddatblygu gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a sefydliadau cymunedol. Yn yr ystyr hwn, mae cyfle i ddysgu gwersi o'r Ddeddf wrth ddeddfu ar gyfer cymunedau yn y dyfodol.

³ Llywodraeth Cymru, 2019, Nod Llesiant Cenedlaethol 23, [Llesiant Cymru 2018-19](#), t.80

Mae'r argyfwng yn amlygu gwerth grwpiau cymunedol a chyfleoedd i gydweithio ar draws sectorau

Mae nifer o'r grwpiau cymunedol a gymerodd ran yn ein sgwrs genedlaethol wedi darparu cymorth brys i bobl leol mewn ymateb i'r pandemig coronafeirws. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn wedi golygu datblygu partneriaethau newydd â chyrff cyhoeddus, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a sefydliadau cymunedol eraill, yn ogystal â threfnu nifer mawr o wirfoddolwyr lleol.

Er bod y rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn ymwneud ag ymyriadau argyfwng i ddiwallu anghenion pobl ar y pryd, mae wedi dangos y potensial sydd ar gael drwy weithredu cymunedol a chydweithio â chyrff cyhoeddus. Mae'r broses hon wedi gweithio'r ddwy ffordd, ac mae arolwg diweddar yn y DU wedi dangos bod mwy na 90% o gynghorau yn nodi bod grwpiau cymunedol wedi cyflawni rôl bwysig iawn yn eu hymdrechion i ymateb i COVID-19.⁴

Yr angen am weledigaeth a strategaeth gadarnhaol ar gyfer cymunedau yng Nghymru

Er bod cyfeiriadau niferus at 'gymunedau' mewn polisi, nid oes gweledigaeth neu strategaeth gyffredinol ar eu cyfer yng Nghymru, ac nid ydynt wedi'u cynnwys chwaith mewn unrhyw bortffolio gweinidogol. Mae'r sefyllfa hon yn bodoli ers cau Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Yn y gwagle hwn, mae polisi'r Llywodraeth tuag at gymunedau wedi dod yn ddigyswllt, a hynny wedi arwain at nifer o wahanol ddulliau o weithredu mewn gwahanol feysydd polisi. Dyma un o'r rhwystrau mwyaf i gynyddu gweithredu cymunedol. Mae hefyd yn cynnig cyfle i ddiwygio'r agenda ar gymunedau yng Nghymru mewn ffordd sylfaenol fel y bydd yn canolbwyntio ar feithrin cryfderau cymunedau yn hytrach nag ymateb i wendidau. Er hynny, prin yw'r brwdfrydedd dros gael rhaglen newydd o fath tebyg i Cymunedau yn Gyntaf. Yn lle hynny, mae awydd yn y cymunedau y buom yn siarad â nhw i greu amgylchedd mwy effeithiol i ddatblygu gweithredu cymunedol annibynnol lleol sy'n ategu gwaith y sector cyhoeddus.

Argymhellion

Buddsoddi mewn gweithredu cymunedol a seilwaith cymdeithasol

- Dylid defnyddio arian o gylch nesaf y Cynllun Asedau Segur (DAS) yn y DU i greu Cronfa Cyfoeth Cymunedol i Gymru, i ddarparu cyllid hyblyg hirdymor i gymunedau sydd â'i angen fwyaf (mae cyllid y DAS yn arian ychwanegol at achosion da ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer gwariant cyhoeddus rheolaidd).

⁴ New Local Government Network, Mai 2020, [Leadership Index Survey](#)

- Cyflwyno deddfwriaeth newydd i gynyddu'r hawliau sydd gan sefydliadau cymunedol i brynu, lesio, rheoli neu ddefnyddio tir ac adeiladau sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus (wedi'i seilio ar y patrwm yn rhannau o Ddeddf Grymuso Cymunedol yr Alban).
- Gwella cronfa'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a neilltuo Cyllid Buddsoddi Rhanbarthol yn y dyfodol i sicrhau cymorth refeniw a chyfalaf ar gyfer datblygu gweithredu cymunedol a seilwaith cymdeithasol ar gyfer pob cymuned yng Nghymru.

Datblygu gweledigaeth a strategaeth genedlaethol gan gymunedau ac ar eu cyfer

- Datblygu strategaeth dan arweiniad Gweinidog i adeiladu cymunedau cryfach, gan wneud defnydd o arbenigedd sefydliadau cymunedol presennol.
- Dylai'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gynnal ymchwiliad i'r rhwystrau a chyfleoedd i weithredu cymunedol yng Nghymru.
- Cynnwys dyletswydd newydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyrff cyhoeddus hyrwyddo rôl sefydliadau cymunedol a datblygu seilwaith cymdeithasol i'w redeg gan y gymuned.
- Cyflwyno Dangosydd Llesiant Cenedlaethol newydd i fesur seilwaith cymdeithasol sy'n cael ei redeg gan y gymuned yn ôl ardal awdurdod lleol.

Gwella'r cyd-ddealltwriaeth a'r cydweithio rhwng cymunedau a chyrrff cyhoeddus

- Creu Cronfa Her Cymunedau o £5 miliwn (ar sail model yr Economi Sylfaenol) i roi prawf ar ffyrdd i ddatblygu cydweithio a chyd-ddealltwriaeth rhwng cymunedau a chyrrff cyhoeddus.
- Datblygu canllawiau arfer da i gyrff cyhoeddus ar gydweithio ac adeiladu cymunedau cryfach mewn partneriaeth â CLILC ac Archwilio Cymru.
- Ei gwneud yn ofynnol bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn mapio seilwaith sy'n cael ei redeg gan y gymuned leol yn rhan o'u hasesiad o lesiant lleol, ochr yn ochr â dyletswydd i gydweithio â seilwaith cymdeithasol presennol.

2. Cyflwyniad

Mae llifogydd y gaeaf a'r pandemig coronafeirws wedi taflu goleuni ar werth, cryfder a dyfeisgarwch ein cymunedau lleol. Mewn ychydig fisoedd, mae grwpiau cymunedol ledled Cymru wedi darparu bwyd, cyfeillgarwch a chymorth ar raddfa a chyda gwybodaeth a gofal na fyddai'r un corff gwladwriaethol wedi gallu ei ddarparu ar ei ben ei hun. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn wedi bod yn fwyaf effeithiol lle mae sgiliau ac adnoddau'r sector cyhoeddus wedi dilyn arweiniad cymunedau.

Er bod y rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn ymwneud ag ymyriadau argyfwng i ddiwallu anghenion pobl ar y pryd, mae'n cynnig cipolwg o'r pŵer a'r potensial sydd mewn gweithredu cymunedol i siapio cymdeithas yng Nghymru at y dyfodol. Mae arolwg diweddar yn dangos bod y cyhoedd yn rhannu'r farn hon, a dim ond 9% o bobl Prydain a ddywedodd eu bod am weld bywyd yn mynd 'yn ôl i'r arfer' wedi i'r cyfnod clo ddod i ben, ar ôl profi ymdeimlad cryfach o berthyn i gymuned yn eu hardal.⁵

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â deall a meithrin yr ymdeimlad hwnnw o berthyn i gymuned. Mae'n tynnu sylw at y rhan allweddol sydd i weithredu cymunedol wrth ddatblygu cymunedau lleol cynaliadwy, ac at y prif ffactorau sy'n rhwystro ac yn hwyluso'r broses honno.

Dros nifer o flynyddoedd, mae llywodraeth ar bob lefel wedi cymell gweithredu cymunedol ond wedi diystyru i raddau helaeth y ffordd y mae ei gweithredoedd yn effeithio ar hyfywedd gweithredu cymunedol. Yn rhy aml, mae Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus yn disgwyl y bydd ymgysylltu cymunedol, cydweithio, a seilwaith cymdeithasol yn datblygu o fewn gwagle, gan anghofio'r ffaith bod gweithredu cymunedol yn hanfodol ym mhob un o'r rhain.

Mae'r adroddiad hwn yn codi o ymdeimlad cynyddol o rwystredigaeth mewn sefydliadau cymunedol ynghylch y diffyg cyfatebiaeth rhwng y dyheadau sydd wedi'u datgan mewn polisi Llywodraeth yng Nghymru a'r gweithredoedd a welir o ddydd i ddydd.

Yn sail i hyn y mae'r canfyddiadau mewn 20 o weithdai a gynhaliwyd ledled Cymru, o Wrecsam i Aberdaugleddau, ac o Gasnewydd i Fethesda. Daeth mwy na 250 o bobl i'r gweithdai hyn, y rhan fwyaf ohonynt o grwpiau cymunedol lleol ond hefyd o rai sefydliadau mwy yn y trydydd sector ac o nifer bach o gyrrff cyhoeddus. Holwyd cyfranogwyr am yr hyn a fyddai'n eu helpu i adeiladu cymunedau cryfach – a beth oedd y rhwystrau. Ym mhob rhan o'r adroddiad hwn, rydym yn tynnu'n helaeth ar eu profiadau a'u syniadau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n rhwystro ac yn hwyluso gweithredu cymunedol.

Mae'r adroddiad wedi'i seilio hefyd ar ymchwil ddiweddar gan BCT i fapio'r nifer mawr o asedau sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned yng Nghymru, sy'n dangos cryfder presennol y sefydliadau cymunedol yng Nghymru. Ochr yn ochr â hyn, roeddem wedi cynnal adolygiad o bolisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chymunedau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o beth sydd a beth nad yw'n gweithio.


⁵ Sky News, 17 Ebrill 2020, [Coronavirus: Only 9% of Britons want life to return to 'normal' once lockdown is over](#)

3. Gweithredu Cymunedol yng Nghymru

Beth rydym yn ei olygu wrth weithredu cymunedol

Gweithredu cymunedol yw'r term a ddefnyddiwn i ddisgrifio'r hyn sy'n digwydd pan fydd pobl leol yn dod ynghyd i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt a gwneud eu hardaloedd yn lleoedd gwell i fyw. Roedd mwyafrif helaeth y cyfranogwyr yn ein gweithdai wedi cymeradwyo'r dull hwn o weithredu, sydd wedi'i seilio ar egwyddorion sylfaenol Datblygu Cymunedol Seiliedig ar Asedau⁶ ac wedi'i amlygu yn yr amrywiaeth fawr o sefydliadau sy'n cael eu rhedeg gan gymunedau i ddarparu cyfleusterau a gweithgareddau hanfodol ledled Cymru. Yn y bôn, mae'n ddull sy'n tynnu ar yr hyder, gallu a sgiliau sydd gan bobl leol i drefnu a datblygu seilwaith cymdeithasol a chydgyfwrth yn eu cymunedau. Mae cydweithio â chyrrff cyhoeddus a chymryd rhan mewn penderfyniadau lleol hefyd yn elfennau allweddol sy'n helpu i hwyluso a datblygu gweithredu cymunedol.

Ffigur 1: Effaith gweithredu cymunedol



Yn ein gweithdai gyda sefydliadau cymunedol, roeddent yn dweud bod gweithredu cymunedol yn cael ei sbarduno gan “bobl sydd am wneud pethau drostyn nhw eu hunain, beth bynnag am lywodraeth”. Mae hyn yn adlais o rwystredigaeth gyffredin a fynegwyd gan nifer mawr fod llywodraeth yn aml yn fwy o rwystr nag o help pan fydd pobl a sefydliadau'n ceisio gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt.

“Dyw'r system ddim yn caniatáu i bobl greu pethau iddyn nhw eu hunain. Mae'n eich cymell chi i fod yn wan.”

“Ydy'r sector cyhoeddus wir eisiau rhoi pŵer i gymunedau?”

Mae'r cwestiwn olaf yn un pwysig ac mae'n codi dro ar ôl tro yn yr adroddiad hwn. Mae'n siapiro profiadau pobl a sefydliadau mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel a lefelau isel o

⁶ Nurture Development, 2017, [Asset-Based Community Development – 5 Core Principles](#)


weithredu cymunedol. Mewn mannau lle mae lefelau uchel o weithredu cymunedol, gall olygu bod awdurdod lleol yn datblygu canolfan gymunedol newydd lle mae sefydliad cymunedol dibynadwy a hirsefydlog eisoes yn darparu cymorth tebyg. Mewn ardaloedd lle mae lefelau isel o weithredu cymunedol, gall hyn olygu nad yw pobl leol yn gallu mabwysiadu ased neu ddatblygu gwasanaeth y maent am ei redeg o ganlyniad i ddiffyg gallu cymunedol, sgiliau proffesiynol a chymorth. Yn y ddau senario, mae problem allweddol yn codi oherwydd natur gyfyngedig yr hawliau a'r cymorth sydd ar gael i gymunedau sydd am redeg asedau cymunedol sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus.

Er gwaethaf heriau o'r fath, mae digon o dystiolaeth bod cymunedau'n cymryd camau sy'n gwella llesiant lleol, drwy ddatblygu eu mathau eu hunain o gydgyfwrth a seilwaith cymdeithasol. Er hynny, y cwestiwn sy'n aros yw faint yn rhagor y gellid ei gyflawni o gael amgylchedd polisi cyhoeddus cefnogol.

Cymunedau'n gweithredu drostyn nhw eu hunain

Yn ein hymchwil i fapio asedau cymunedol, nodwyd 443 o asedau sydd o dan arweiniad neu berchnogaeth y gymuned ledled Cymru, yn cynnwys canolfannau a mentrau cymunedol, cyfleusterau celfyddydau a threftadaeth, amwynderau fel tafarndai, caffis a llyfrgelloedd, cyfleusterau hamdden a mannau gwyrdd.⁷ Mae'r astudiaeth (nad yw'n cynnwys rhai mathau o asedau fel clybiau chwaraeon a sefydliadau ffydd⁸) yn darparu ciplun o raddfa, dosbarthiad a phosibiliadau'r seilwaith cymdeithasol bywiog sy'n cael ei redeg dan arweiniad y gymuned yng Nghymru.

Ffigur 2: Asedau cymunedol yn ôl ardal awdurdod lleol yng Nghymru



⁷ BCT et al, *Mapping Community Assets in Wales*, t.11-14

⁸ Nid oedd clybiau chwaraeon a sefydliadau ffydd wedi'u cynnwys yn yr ymchwil am nad ydynt yn agored i'r gymuned ehangach ym mhob achos. Fodd bynnag, lle'r oeddem wedi dod ar draws enghreifftiau o asedau o'r fath a oedd yn agored i'r gymuned ehangach (er enghraifft, yn rhedeg gwasanaethau fel banciau bwyd, canolfannau cymunedol a chynlluniau adsefydlu cyffuriau) roeddem wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth.

Mae canfyddiadau'r gwaith mapio asedau hefyd yn adlewyrchu natur amrywiol y gweithredu cymunedol a seilwaith cymdeithasol a nodwyd yn ein gweithdai. Rhai enghreifftiau yw grwpiau lleol sydd wedi cymryd canolfannau cymunedol drosodd yn llwyddiannus; pobl leol a busnesau sydd wedi cydgysylltu i ddatblygu tafarndai, siopau a chaffis sy'n eiddo i'r gymuned; creu mentrau cymdeithasol i redeg cyfleusterau twristiaeth a hamdden; a chynghorau cymuned a grwpiau sydd wedi rhannu gwybodaeth ac adnoddau i sicrhau asedau lleol.

Roedd ein hymchwil i fapio asedau wedi dangos bod mentrau cymdeithasol o'r fath dan arweiniad y gymuned yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy i'r economi sylfaenol ledled Cymru. Maent yn darparu cyfleoedd am gyflogaeth a gwirfoddoli, yn enwedig i bobl sy'n wynebu rhwystrau i ymuno â'r farchnad lafur. Maent hefyd yn darparu gwasanaethau gwerthfawr ar gyfer y gymuned.⁹ Mae nifer o'r asedau a gafodd eu mapio hefyd yn darparu hyfforddiant fel gwasanaeth allweddol ac maent yn aml yn fwy llwyddiannus wrth gynnwys grwpiau mwy ymylol am eu bod wedi integreiddio â chymunedau lleol. Mae adroddiad diweddar gan Sefydliad Bevan yn tynnu sylw at y pwysigrwydd o harneisio potensial economaidd asedau cymunedol er mwyn helpu i gynyddu cyfoeth lleol:

“Gan ei bod yn anochel bellach y bydd dirwasgiad difrifol yn dilyn y pandemig bydeang, mae'r angen i harneisio potensial economaidd asedau cymunedol yn bwysicach nag erioed, yn enwedig i'r economïau lleol sy'n fwyaf agored i effeithiau dirywiad economaidd.”¹⁰


Mae ein hymchwil i fapio asedau yn dangos rhai o'r sbardunau allweddol ar gyfer gweithredu cymunedol, sef y cam allweddol cyntaf at harneisio potensial economaidd asedau cymunedol (gweler Ffigur 3). Mae'n dangos bod gweithredu cymunedol yn cryfhau sefydliadau cymunedol a'u gwneud yn fwy dyfeisgar, gan fod mwy na dwy ran o dair yr asedau a nodwyd wedi bodoli ers mwy na deng mlynedd. Mae eu gallu i wrthsefyll ffactorau economaidd allanol yn cael ei briodoli i'w gallu i reoli costau rhedeg, cael cymorth gan bobl a busnesau lleol, ac ysbrydoli a gwneud defnydd effeithiol o wirfoddolwyr.¹¹

⁹ Ibid, t. 21

¹⁰ Sefydliad Bevan, 2020, [Productive community assets: generating the benefits](#), Crynodeb

¹¹ BCT et al, *Mapping Community Assets in Wales* t. 17-18

Ffigur 3: Sbardunau gweithredu cymunedol



Fodd bynnag, nid yw'r gallu, cydnerthedd ac arloesedd a ddangosir gan nifer o gymunedau a'u hasedau yn bodoli i'r un graddau ledled Cymru. Nid yw'r asedau wedi'u dosbarthu'n wastad chwaith, nac yn adlewyrchu maint y boblogaeth mewn ardaloedd awdurdodau lleol. Er hynny, maent yn dangos y posibilïadau a'r cyfleoedd a geir drwy allu cymunedau i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt.

Nid oes un ateb sy'n addas i bawb

Un thema gyffredin a gododd yn ein gweithdai oedd bod pob cymuned a lle'n wahanol a bod angen i bolisi Llywodraeth ac arferion cyrff cyhoeddus fod yn hyblyg er mwyn adlewyrchu hyn. Mae canfyddiadau'r ymchwili i fapio asedau yn dyst i hyn, gan ddangos amrywiadau daeryddol sylweddol o ran nifer yr asedau rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. Ac er cydnabod na ddylai canfyddiadau'r ymchwili gael eu trin fel ffigurau terfynol, maent yn dangos yn fras beth yw maint yr asedau cymunedol ledled Cymru. Yn y cyd-destun hwn, mae'n dangos bod nifer uwch o lawer o asedau mewn nifer o ardaloedd gwledig, o'u cymharu â rhai trefol a rhai yn y Cymoedd, er bod y darlun ymhell o fod yn unffurf, fel y mae Ffigur 2 uchod yn dangos.

Nid oes unffurfedd chwaith o ran dosbarthiad yr asedau cymunedol ar sail amodau economaidd-gymdeithasol yr ardaloedd, er ei bod yn ymddangos bod nifer o ardaloedd trefol tlotach ymysg y rhai sy'n lleiaf tebygol o elwa. (Mae'n bosibl y gellir priodoli hyn i'r ffaith bod mwy o asedau fel canolfannau cymunedol yn parhau'n eiddo i'r sector cyhoeddus mewn ardaloedd o'r fath.)

Yr hyn sy'n amlwg o'r adroddiad yw bod nifer o ardaloedd tlotach yn wynebu heriau sylweddol wrth ddatblygu a chynnal y gallu, sgiliau a chyllid sydd eu hangen i ddatblygu gweithgareddau cymunedol a seilwaith cymdeithasol. Mae hwn yn fater perthnasol sy'n amlygu'r berthynas symbiotig rhwng gweithredu cymunedol, seilwaith cymdeithasol a chyfalaf economaidd a chymdeithasol ehangach yn yr ardal. Mae adroddiad diweddar gan Oxford Consultants for Social Inclusion (OCSI) i'r Local Trust yn dangos yr effeithiau economaidd-gymdeithasol mewn ardaloedd lle mae'r elfennau allweddol hyn yn brin:

“Mae diffyg lleoedd i gwrdd (boed yn ganolfannau cymunedol, tafarndai neu neuaddau pentref); diffyg cymuned frwdfrydig a gweithgar; a chysylltedd ffisegol a digidol gwael â'r economi ehangach yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ganlyniadau cymdeithasol ac economaidd mewn cymunedau difreintiedig. Mewn ardaloedd difreintiedig sydd heb yr asedau hyn, mae cyfraddau uwch o ddiweithdra, afiechyd a thlodi plant nag mewn ardaloedd difreintiedig eraill. Ac mae'n ymddangos bod y bwlch rhyngddynt yn cynyddu.”¹²

Ategwyd y canfyddiad hwn gan brofiadau nifer mawr o bobl a ddaeth i'n gweithdai a thystiolaeth ehangach o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.¹³ Maent yn dweud bod datblygu gweithredu cymunedol yn sbardun yn aml i greu seilwaith cymdeithasol, sy'n arwain yn ei dro at fwy o weithredu cymunedol: ceir cylch rhinweddol lle mae hyn yn bodoli, a chylch cythreulig yn aml lle nad yw'n bodoli. Roeddent yn pwysleisio bod cychwyn gweithredu cymunedol yn gallu bod yn broses araf mewn ardaloedd lle mae lefel y gweithredu cymunedol yn isel a bod hyn yn mynd law yn llaw â meithrin ymddiriedaeth yn y gymuned a fydd yn digwydd, yn ddelfrydol, drwy ddarparu cymorth gan weithwyr datblygu annibynnol medrus sy'n dilyn arweiniad y gymuned.

Gall cyrff cyhoeddus chwarae rhan hollbwysig o ran cefnogi neu lesteirio'r broses hon ac mae dystiolaeth o'n gweithdai a'r ymchwil i fapio asedau yn tynnu darlun cymysg iawn o'r cymorth – uniongyrchol ac anuniongyrchol – y maent yn ei roi ar gyfer gweithredu cymunedol ledled Cymru. Un ffordd allweddol i fesur hyn yw'r cymorth a geir gan gynghorau a'r broses y byddant yn mynd drwyddi wrth drosglwyddo asedau cyhoeddus/seilwaith cymdeithasol fel canolfannau cymunedol a llyfrgelloedd i sefydliadau cymunedol.

Heriau wrth redeg seilwaith cymdeithasol gan y gymuned

Mewn ymateb i fesurau cyni, mae nifer o gynghorau yng Nghymru wedi gorfod trosglwyddo seilwaith cymdeithasol roeddent yn ei redeg o'r blaen i ddwylo grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol. Mae CLILC wedi dweud mai hon yw'r unig ffordd y gallant “gadw gwasanaethau gwerthfawr a chryfhau cymunedau” mewn llawer o ardaloedd.¹⁴

¹² Local Trust/OCSI, 2019, [Left behind? Understanding communities on the edge](#), t. 4

¹³ TNLCF, 2019, [Bringing people together: how community action can tackle loneliness and social isolation](#), t.18

¹⁴ Wales Online, 2019, [The club at the heart of a community that faced closing if it did not take a 'leap of faith'](#)

Mae'r profiad a gafodd grwpiau cymunedol o brosesau awdurdodau lleol ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC) yn amrywio'n fawr ledled Cymru ac nid yw'n ymddangos bod fawr o gysondeb o ran y dull o weithredu a rhannu arferion da. Mewn rhai achosion, roedd cymunedau y buom yn siarad â nhw yn teimlo bod cynghorau'n gwthio asedau arnynt heb roi cymorth priodol, tra oedd eraill wedi mynegi rhwystredigaeth am fod cynghorau'n amharod i adael i gymunedau redeg asedau oherwydd y risgiau tybiedig.

Roedd ein ymchwil i fapio asedau yn dangos bod y cyfraddau TAC yn amrywio'n fawr ledled Cymru, a'i bod yn ymddangos mai dim ond nifer bach o ardaloedd awdurdodau lleol a oedd wedi hyrwyddo'r polisi hwn yn rhagweithiol.¹⁵ Mewn rhai achosion, dywedwyd bod y broses TAC ei hun yn 'llawn anawsterau ar y ddwy ochr yn aml'.

Wrth ymateb i'r ymchwil, dywedodd rhai sefydliadau cymunedol eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gadael i fynd ar eu liwt eu hunain ar ôl trosglwyddo'r ased ac y byddai wedi bod yn fuddiol cael deialog barhaus. Yn benodol, roeddent wedi tynnu sylw at yr angen am gymorth ar agweddau fel materion cyfreithiol, adnoddau dynol, ac iechyd a diogelwch, gan fod rhai o'r prosesau trosglwyddo asedau yn gymhleth.

I ryw raddau, gellir priodoli'r diffyg cymorth parhaus gan awdurdodau lleol i gamau diweddar i dorri costau. Mewn rhai achosion, roedd sefydliadau cymunedol wedi aros am gyfnodau hir i drosglwyddo'r ased o ganlyniad i hyn:

“Mewn un achos, roeddem wedi siarad â rhywun a fu'n aros am fisoedd am ganlyniad i arolwg gan yr awdurdod lleol i gael symud ymlaen i drosglwyddo ased cymunedol. Roedd hyn yn eu rhwystro rhag gwneud cais am grant a oedd yn angenrheidiol er mwyn gallu ei drosglwyddo. Mae'n debyg bod hyn yn ganlyniad i'r ffaith bod swydd yr aelod o'r staff a oedd yn gyfrifol am helpu i drosglwyddo asedau cymunedol wedi cael ei dileu am fod y cyllid ar gyfer y swydd wedi dod i ben ar ôl blwyddyn.”

Mewn achosion eraill, roedd awdurdodau lleol yn disgwyl pethau anymarferol gan grwpiau a phwyllgorau cymunedol ar ôl trosglwyddo asedau. Un enghraifft oedd mynnu bod adroddiadau monitro beichus (a dibwrpas gan mwyaf) yn cael eu cyflwyno am nifer yr ymwelwyr â'r adeilad.

Un canfyddiad clir o'r ymchwil i asedau yw bod angen gwneud rhagor ar y dechrau (fel llunio memorandwm cyd-ddealltwriaeth) i gael cytundeb rhwng y ddau barti ar y disgwyliadau. Agwedd allweddol ar hyn yw sefydlu trefniadau partneriaeth clir ac, os oes modd, gwella hawliau cymunedol, yn hytrach na bod y corff sy'n trosglwyddo yn pennu'r broses a'r gofynion.

¹⁵ BCT et al, *Mapping Community Assets in Wales*, Crynodeb Gweithredol, t. 5

4. Diffyg Cyswllt â Llywodraeth a'r Sector Cyhoeddus

Llywodraeth yn gwneud pethau dros gymunedau, nid ar y cyd â nhw

Mae ein trafodaethau â chymunedau yn dangos bod pryder ynghylch diffyg cyswllt rhwng yr uchelgeisiau a rethreg mewn polisi cenedlaethol a'r realiti a welir ar lefel y gymuned leol. Er bod nifer mawr yn cytuno â nodau polisi'r Llywodraeth, mae teimlad cyffredinol nad yw "geiriau canmoladwy yn cael eu hategu gan weithredu".

"Mae'r syniadau hyn wedi bod yn gyffredin ers amser hir, ond mae amheuan ynghylch eu gwir ystyr."

"Mae (Llywodraeth Cymru) yn cyhoeddi'r holl ddatganiadau hyn, ond maen nhw am iddyn nhw gael eu cyflawni heb unrhyw gyfraniad ganddyn nhw a heb gost iddyn nhw."

Mae'r mwyafrif helaeth o bobl yn cydnabod bod mesurau cyni yn cael effaith anghymesur ar gyflawni uchelgeisiau llywodraeth. Ond mae cred gadarn o hyd mai "modelau diffyg ar gyfer cymunedau sy'n cael y lle blaenaf ym meddwl llywodraeth", mai prin yw'r sylw a roddir i brofiadau a chryfderau cymunedau a'u bod, ar y gwaethaf, yn cael eu hanwybyddu.

Yn rhy aml, mae'r profiadau a gaiff grwpiau cymunedol wrth gydweithio â chyrff cyhoeddus yn amlygu cyfathrebu gwael, diffyg ymddiriedaeth, amharodrwydd i fentro, gweithio digyswllt ac – mewn rhai achosion – rhagfarn broffesiynol. Mae un o gyfranogwyr ein gweithdai – sydd wedi cael gyrfa hir yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector – wedi disgrifio ei phrofiad o weithio i awdurdod lleol a oedd yn rhyngweithio â chymunedau:

"Yn aml bydd awdurdodau lleol yn amddiffyn wrth gydweithio â chymunedau ac mae eu dull o weithredu wedi'i seilio ar hunanamddiffyn yn bennaf. Mewn llawer achos, mae eu swyddogion wedi syrffedu a digaloni oherwydd agweddau negyddol ac amharodrwydd i fentro ac mae yna ffordd o feddwl sy'n gweld cymunedau'n broblem sy'n rhwystro nodau a gweithdrefnau sefydliadol."

Mae hyn yn adlewyrchu barn gyffredin bod diffyg ymddiriedaeth sylfaenol mewn gweithredu dan arweiniad y gymuned, a bod cyrff cymunedol fel arfer yn gorfod dangos tystiolaeth o safon uwch o lawer am eu perfformiad na gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r farn hon a'r diffyg cyswllt sy'n ei dilyn yn cael ei brofi mewn ffordd wahanol gan wahanol gymunedau mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru. Mae nifer mawr yn y dinasoedd mwy yn sôn am ymddieithrio cynyddol oddi wrth lywodraeth leol, tra bo'r rheini mewn ardaloedd sy'n fwy anghysbell, ac yn rhai gwledig yn aml, sy'n bellach o Gaerdydd yn teimlo diffyg cyswllt mwy â Llywodraeth Cymru.

"Mae rhai ardaloedd yn profi diffyg cyswllt cynyddol oddi wrth lywodraeth leol heblaw am wasanaethau statudol sylfaenol."

“Rydym yn teimlo bod rhaglenni cenedlaethol a ffrydiau cyllido yn ein hanghofio’n aml, ond mae hyn yn cryfhau ein gwaith lleol a’n cysylltiadau â chyrrff cyhoeddus lleol.”

Mae dimensiwn economaidd-gymdeithasol hefyd i’r profiadau hyn, ac mae asedau cymunedol yn fwy niferus mewn lleoliadau gwledig nag mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd yn y Cymoedd sydd yn aml yn dlotach.¹⁶ Mae hyn yn dangos bod ffactorau gwahanol iawn yn gallu ysgogi teimladau o ddiffyg cyswllt a rhwystredigaeth. Er hynny, mae sefydliadau cymunedol bron yn unfryd wrth ddweud nad oes un dull o weithredu sy’n addas i bawb ar gyfer gweithio gyda chymunedau. Fodd bynnag, mae’r dealltwriaeth o hynny o fewn y sector cyhoeddus yn brin iawn o hyd ac mae hyn yn arwain yn aml at danbrisiu dulliau o weithredu dan arweiniad y gymuned ac at arferion gwael wrth weithio mewn partneriaeth.

Mae nifer o gymunedau hefyd yn gweld eu profiad a’u teimladau o ddiffyg cyswllt mewn cyd-destun hanesyddol ehangach lle mae’r naill Lywodraeth ar ôl y llall wedi ‘gwneud pethau drostyn nhw, nid gyda nhw’. Maent yn disgrifio’r erydu araf ar hyder dinasyddion i ymgymryd â gweithredu cymunedol gan system sydd yn rhy aml yn “gofyn i chi fod yn wan”. O’u safbwynt nhw, mae angen o hyd am adolygu ac adfer cydbwysedd y berthynas rhwng galluedd pobl leol a rôl y wladwriaeth. Yng nghyd-destun y cynnydd mewn gweithredu cymunedol a chydweithio ar draws sectorau mewn ymateb i’r pandemig coronafeirws, mae’r ymdeimlad hwn o rwystredigaeth wedi’i waethygu gan fod pobl yn meddwl tybed ‘Pam na fyddai hyn wedi gallu digwydd o’r blaen?’. Er hynny, mae teimlad hefyd fod cyfle ar gael.

Llai o allu i ddylanwadu ar benderfyniadau

Mae’r diffyg cyswllt a ddisgrifiwyd uchod yn dod i’r amlwg ym mesurau llesiant cenedlaethol y Llywodraeth ei hun. Dros y 4-5 mlynedd diwethaf, mae pobl yng Nghymru wedi teimlo llai a llai o allu i ddylanwadu ar benderfyniadau sy’n effeithio ar eu hardal leol (Ffigur 4, t17).¹⁷ Mae data o Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn dangos bod mwy na dwy ran o dair o bobl yn teimlo nad oes ganddynt gyfle i gymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdodau lleol.¹⁸ Yn ogystal â hyn, cafwyd gostyngiad hirdymor yn y niferoedd sy’n pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru,¹⁹ ynghyd ag adroddiadau am ddiffyg ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â’r gymuned ar ran cynghorau tref a chymuned.²⁰

Mae’r dadrymuso cyffredinol hwn yn groes i uchelgeisiau’r Llywodraeth am sicrhau mwy o gyfranogi a chydweithio gan y cyhoedd wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau. Mae hefyd yn groes i’r duedd gymdeithasol ehangach lle mae pobl yn disgwyl cael mwy o ddylanwad uniongyrchol ar eu bywydau. Mewn arolwg ar draws y DU a

¹⁶ BCT et al, *Mapping Community Assets in Wales*, t.12

¹⁷ Llywodraeth Cymru, 2019, [Llesiant Cymru 2018-19](#), t.79

¹⁸ Llywodraeth Cymru, 2018, [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)


¹⁹ Y Comisiwn Etholiadol, 2019, [Results and turnout at the May 2017 Wales local elections](#)

²⁰ Llywodraeth Cymru, 2018, [Y Panel Adolygu Annibynnol ar Gyngorau Cymuned a Thref yng Nghymru](#), t.29

gynhaliwyd y llynedd, pan ofynnwyd pwy a ddylai fod â rhan mewn penderfynu ar wasanaethau lleol, cafwyd bod cefnogaeth gryf i ragor o reolaeth uniongyrchol, gan fod 63% o bobl wedi dweud y dylai unigolion fod â rhan mewn penderfyniadau, a 62% wedi rhoi grwpiau cymunedol yn ateb a 61% wedi dweud llywodraeth leol. Dim ond 30% a ddywedodd y dylai llywodraeth genedlaethol gymryd rhan.²¹

Rhan o'r ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r heriau hyn oedd cyflwyno dyletswydd newydd ar gynghorau i 'annog pobl leol i gyfranogi pan fo'r cyngor yn gwneud penderfyniadau' drwy ddarparu mwy o wybodaeth iddynt am y ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithio, yn anad dim arall.²² Er hynny, nid yw'r cynigion yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gymryd camau i ddeall gweithredu cymunedol a'i ddatblygu, fel y gall pobl drefnu'n lleol ac mewn ffordd ystyrlon i gymryd rhan – yn enwedig y rheini sydd wedi ymddieithrio a/neu gael eu difreinio fwyaf mewn perthynas â llywodraeth leol.

Ffigur 4: Canran y bobl yng Nghymru sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol



Nodau hirdymor ond cyllido byrdymor

Mae cymunedau hefyd yn disgrifio diffyg cyswllt rhwng polisi ar arferion cyllido Llywodraeth Cymru. Er bod rhai'n canmol ffrydiau cyllido byrdymor a dros dro am gynnal mathau penodol o fodolau ymarfer da a gwaith mewn partneriaeth (mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol yn bennaf),²³ teimlir eu bod yn anghyson â ffocws polisi ehangach Llywodraeth Cymru ar weithio ataliol, cynaliadwy tymor hir. Yn yr un modd, cafwyd beirniadu hefyd ar yr

²¹ New Local Government Network, 2019, [The Community Paradigm](#), t.32

²² Senedd Cymru, [Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\)](#), para. 46-48

²³ Yn enwedig y Gronfa Gofal Integredig a'r Gronfa Bontio

hyn sy'n ymddangos yn obsesiwn gan Lywodraeth Cymru â phrosiectau peilot, ac roedd cymunedau wedi mynegi rhwystredigaeth bod hyn yn cymell awdurdodau lleol i roi blaenoriaeth i gyllido byrdymor yn hytrach na chymorth hirdymor dan arweiniad y gymuned.

“Maen nhw (awdurdod lleol) yn anfon pobl at sefydliadau cymunedol heb roi cyllid ychwanegol, ac wedyn yn dyblygu beth maen nhw'n ei wneud os oes pot newydd o arian.”

“Mae ganddyn nhw (Llywodraeth Cymru) obsesiwn â modelau a datblygu; allwch chi ddim copio model a'i drawsblannu yn rhywle arall. Y gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n bwysig, yn ogystal â llywodraethu da.”

Mae adolygiad gan Archwilio Cymru o'r Gronfa Gofal Integredig yn adleisio'r profiad hwn. Cafodd nad oedd nemor ddim tystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus a ariannwyd gan y gronfa (yn cynnwys arferion da gyda phartneriaid yn y trydydd sector) yn cael eu prif ffrydio a'u cyllido yn rhan o wasanaethau craidd cyrff cyhoeddus (un o brif nodau'r gronfa).²⁴

Mae'n ymddangos bod cydnabyddiaeth o'r angen am fodel cyllido mwy cynaliadwy sy'n cynnwys cyfranogi gan y gymuned ac egwyddorion llesiant, ond nad yw hyn wedi'i wireddu eto gan Lywodraeth Cymru. Yn 2019, roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi cytuno â'r Llywodraeth ar ddiffiniad o 'wariant ataliol' i'w ystyried mewn penderfyniadau ar wariant yn y dyfodol:

“Atal yw gweithio mewn partneriaeth a chynhyrchu ar y cyd y canlyniadau gorau posibl, gan ddefnyddio cryfderau ac asedau sydd gan bobl a lleoedd i'w cyfrannu.”²⁵

Mae'n galonogol bod y diffiniad hwn yn cydnabod y dylid ystyried y cryfderau a'r asedau sydd gan bobl a lleoedd wrth benderfynu ar wariant. Yr her fydd rhoi hyn ar waith. Yn yr ymateb gan y Comisiynydd i gyllideb ddrafft 2020-21, nodwyd nad yw'r Llywodraeth wedi dangos mewn ffordd gynhwysfawr eto sut mae'n symud gwariant tuag at atal problemau rhag codi yn hytrach na cheisio eu datrys wedyn.²⁶

Yn y misoedd a'r blynnydoedd nesaf, wrth i ganlyniadau cymdeithasol ac economaidd y pandemig coronafeirws barhau, bydd yn bwysicach nag erioed fod y Llywodraeth yn mabwysiadu dulliau gwario mwy ataliol yn unol â'r diffiniad a gytunwyd. Gan ystyried y dyfeisgarwch a ddangoswyd gan gymunedau yn y misoedd diwethaf, a'u parodrwyd i gydweithio â chyrff cyhoeddus, yn ogystal â'r awydd cryf ymysg y cyhoedd am fwy o reolaeth leol, daeth yn bryd i'r Llywodraeth roi blaenoriaeth i ymyriadau sy'n cynyddu gallu cymunedol ac yn datblygu seilwaith cymdeithasol.

²⁴ Archwilio Cymru, 2019, [Y Gronfa Gofal Integredig](#), t. 41

²⁵ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 2019, [Proses gyllidebol a gwariant ataliol](#)

²⁶ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Rhagfyr 2019, [Ymateb i'r gyllideb gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

5. Agenda Cymru ar Lesiant a Chynnwys Cymunedau

Mae rhan helaeth o agenda bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol wedi cael ei seilio ar lesiant a chyfranogi gan bobl, cymunedau a'u sefydliadau wrth benderfynu ac wrth ddarparu gwasanaethau.²⁷ Fel y nodwyd o'r blaen yn yr adroddiad hwn, mae'r rhan fwyaf o'r cymunedau y buom yn siarad â nhw yn cytuno â'r uchelgeisiau hyn, ond mae eu profiad o'u gweld yn cael eu cyflawni'n lleol yn amrywio'n fawr. I gymunedau, un o'r prif fesurau o lwyddiant yw'r graddau y mae deddfwriaeth yn galluogi pobl i fyw bywydau gwell, un ai drwy wasanaethau cyhoeddus sy'n bodloni eu hanghenion a dymuniadau, neu drwy gefnogi gweithredu cymunedol sy'n caniatáu i bobl leol gymryd y camau hyn eu hunain (neu gymysgedd o'r ddau, os oes modd). Mae tystiolaeth yn dangos bod gweithredu cymunedol effeithiol a chydweithio â chyrrff cyhoeddus yn gallu gwella llesiant, cydnerthedd a chyfleoedd pobl leol.²⁸

Cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLICD) yn darparu dulliau uchelgeisiol a chynhwysfawr i gynnwys cynaliadwyedd hirdymor mewn polisi ac ymarfer ar draws y sector cyhoeddus. Mae'n ceisio rhoi llesiant ar ganol penderfynu yng Nghymru. Mae hefyd yn gofyn i gyrff cyhoeddus gymryd sylw o'r pwysigrwydd o gynnwys pobl a chymunedau er mwyn cyflawni eu nodau llesiant.²⁹ Yn yr ystyr hwn, mae potensial mawr yn DLICD i hwyluso gweithredu a chydweithio cymunedol, er bod y Ddeddf yn ei dyddiau cynnar o hyd, wrth gwrs.

Er hynny, roedd nifer o'r cymunedau a sefydliadau y buom yn siarad â nhw wedi mynegi rhwystredigaeth nad oedd uchelgeisiau DLICD yn cael eu gwireddu, yn benodol y ddyletswydd i'w cynnwys i fwy o raddau.

“Mae ticio blychau'n rhemp o hyd; os yw deddfwriaeth yn gyrru pobl i'r cyfeiriad hwn, fydd hi ddim yn effeithiol. Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol yn llawer mwy defnyddiol na Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.”

Ychydig o gyfarwyddyd sydd yn y Ddeddf a'i chanllawiau statudol ar ffurf a graddau'r chyfranogiad hwn, ac mae'n cael ei adael i ddisgresiwn cyrrff cyhoeddus gan mwyaf.³⁰ Mae

²⁷ Sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

²⁸ Institute of Health Equity, 2020, *The Marmot Review 10 Years On, Community Actions*, t.10
BCT, 2018, *Our Local Economies: Communities Building Prosperity*, t.9

²⁹ DLICD, 2015, Adran 5: *Yr egwyddor datblygu cynaliadwy*, 'rhaid i gorff cyhoeddus ystyried pwysigrwydd cynnwys personau eraill sydd â diddordeb mewn cyrraedd y nodau llesiant a sicrhau bod y personau hynny'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth'

³⁰ Mae canllawiau craidd statudol DLICD yn cyfeirio at ddarpariaethau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau a dinasyddion mewn deddfwriaeth bresennol yn ogystal â nodi'r canllawiau yn Egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd,

hyn yn cynnig y fantais o ganiatáu arloesi a hyblygrwydd lleol, ac yn creu'r anfantais o ganiatáu i gyrff cyhoeddus gymryd camau symbolaidd yn aml heb sicrhau newid gwirioneddol.

Nid oes gofyniad chwaith i gyrff cyhoeddus gydnabod a datblygu'r cryfderau ac asedau sydd ar gael eisoes mewn cymunedau. Yn hytrach, mae'r ddeddfwriaeth yn ymwneud yn bennaf â chynnwys pobl a chymunedau ar sail eu hanghenion, a'u cynnwys mewn penderfyniadau a all newid y gwasanaethau a ddarperir iddynt. Prin yw'r gydnabyddiaeth yn y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol i le pobl neu sefydliadau fel gweithredwyr annibynnol.

Model seiliedig ar ddiffyg yn hytrach nag asedau yw hwn ac nid yw'n cydnabod beth mae cymunedau eisoes yn ei wneud ac wedi'i wneud drostynt eu hunain. Mae hefyd yn adlewyrchu ethos nawddoglyd hirsefydlog mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru sy'n groes i natur flaengar a radicalaidd y ddeddfwriaeth.

Mae mesurau cyni hefyd yn cyfyngu uchelgeisiau'r Ddeddf, gan fod cyrff cyhoeddus yn aml yn anwybyddu nifer o'r dyletswyddau sy'n oblygedig ynddi am nad ydynt yn gallu eu fforddio. Mae hyn yn wir am awdurdodau lleol yn benodol gan fod pwysau ariannol yn cyfyngu'r gallu i gyflwyno newid hirdymor.³¹ Mae rhai o'r grwpiau cymunedol y buom yn siarad â nhw yn priodoli hyn i'w cred bod y Ddeddf wedi'i geirio fel pe bai "cyni heb ddigwydd". Er hynny, nid yw pawb o'r farn hon, ac roedd rhai wedi nodi bod angen am uchelgeisiau'r Ddeddf ar lesiant a chynaliadwyedd "gan fod arian mor brin nawr" ac mai ei nod yw sicrhau newid hirdymor ar draws y sector cyhoeddus.

Mae natur gynhwysfawr DLICD a'r ddyletswydd i gynnwys pobl a chymunedau hefyd yn golygu ei bod yn cael ei dehongli mewn nifer o ffyrdd gwahanol yn ôl pa gorff a/neu ganllawiau sy'n gysylltiedig. Mae'r rhain yn amrywio o ddulliau seiliedig ar ddiffyg (a ddisgrifiwyd uchod) i ddulliau seiliedig ar asedau:

- Yn ôl dehongliad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o rai agweddau ar DLICD, mae'r Ddeddf yn darparu dull seiliedig ar asedau lle mae cyrff cyhoeddus yn creu'r amodau lle bydd pobl a chymunedau'n gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt.³²
- Mae 'Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned er mwyn Grymuso' Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ceisio creu amodau lle gall cymunedau gymryd rheolaeth a chael eu grymuso.³³
- Mae'r canllawiau statudol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyfeirio wrth fynd heibio at nodi a datblygu cryfderau ac asedau pobl a chymunedau wrth gyflawni asesiadau llesiant lleol.³⁴

Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc .

³¹ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 2019, Cynnydd tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, t. 30

³² Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymru o Gymunedau Cydlynus: Mae canllawiau'r Comisiynydd yn tynnu sylw at y pwysigrwydd o sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn deall ac yn ymgysylltu ag asedau o bob math sydd eisoes ar gael mewn cymunedau. Mae hefyd yn darparu enghreifftiau o'r ffordd y gallant hwyluso gweithredu cymunedol yn lleol, drwy ddatblygu asedau sydd ar gael ac ysgogi mwy o gyfranogiad gan y gymuned.

³³ Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2019, Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned er mwyn Grymuso

³⁴ Llywodraeth Cymru, 2016, DLICD Canllawiau ar gyfer byrddau gwasanaethau cyhoeddus

- Mae'r strategaeth Cysylltu Cymunedau ar fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn un sy'n ceisio hybu cysylltiadau rhwng pobl a meithrin eu cryfderau er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol ac ystyrlon.³⁵

Er bod y dulliau hyn o weithredu'n rhai canmoladwy, canllawiau 'braidd gyffwrdd' ydynt sy'n ymdrin mewn ffordd ymylol â'r dyletswyddau sydd yn y Ddeddf ac sydd i'w cyflawni mewn damcaniaeth gan gyrff cyhoeddus. Mewn adolygiad diweddar gan Archwilio Cymru o egwyddorion datblygu cynaliadwy DLICD, cafwyd bod cyrff cyhoeddus yn ymgysylltu â dinasyddion ond nad ydynt yn eu cynnwys yn eu gwaith i'r graddau priodol:

“Yn aml, nid yw cyrff cyhoeddus yn creu cyfleoedd i ddinasyddion gymryd rhan yn y cyfnodau dylunio cynnar a'r cyfnod gwerthuso, ac mae angen iddynt wneud mwy i gynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth.”³⁶

Mae diffyg dull seiliedig ar asedau i hwyluso rhagor o weithredu cymunedol yn rhwystr sylfaenol i'r gallu i helpu cyrff cyhoeddus i gynnwys dinasyddion a chymunedau mewn ffyrdd dilys. Gwnaed y pwynt hwn gan rwydwaith Talwrn o sefydliadau gwirfoddol yn eu hymateb i gynlluniau gan y Llywodraeth,³⁷ sydd bellach wedi'u rhoi o'r neilltu, i greu cymunedau cryf:

“A dyna lle mae'r bwch mwyaf o bosibl yn syniadau gwreiddiol y Llywodraeth am gydnherthedd yn dod i'r amlwg, sef cydnabod pwysigrwydd rhwydweithiau a pherthnasoedd lleol (a elwir yn 'gyfalaf cymdeithasol llorweddol' yn y jargon). Byddai llenwi'r bwch hwn yn dod â manteision mawr. Drwy roi cyfalaf cymdeithasol ar waith, sef cymell pobl leol i wneud pethau gyda'i gilydd mewn geiriau eraill, gellir dod â buddion pendant gwirioneddol i gymunedau ac i ddarparwyr gwasanaethau sy'n gweithio gyda nhw.”³⁸

Mae diffyg cyfalaf cymdeithasol – neu, yng nghyd-destun yr adroddiad hwn, diffyg gweithredu cymunedol – yn rhwystr allweddol i'r gallu i gyflawni uchelgais DLICD o sicrhau mwy o gyfranogi a chydweithio wrth wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau. Mae hefyd yn rhwystr sylweddol i allu'r Llywodraeth i gyflawni ei nodau llesiant ehangach. Mae cyfyngiadau'r Ddeddf yn amlygu'r angen am weledigaeth a strategaeth gliriach ar gyfer cymunedau ar draws Llywodraeth, yn canolbwyntio ar ddatblygu cryfderau pobl a'u hasedau. Byddai hyn yn ei dro yn gallu helpu i gyflawni rhai o uchelgeisiau ehangach y Ddeddf a gwireddu ei photensial.

³⁵ Llywodraeth Cymru, 2020, Cysylltu Cymunedau, t. 5

³⁶ Archwilio Cymru, Mai 2020,

Felly, beth sy'n wahanol? Canfyddiadau Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yr Archwilydd Cenedlaet hol, t.42

³⁷ Llywodraeth Cymru, 2017, Cyhoeddi dull newydd o greu cymunedau cryf

³⁸ Rhwydwaith Talwrn, 2017, Building Resilient Communities, t. 2

Posibiliadau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Er bod grwpiau cymunedol wedi disgrifio diffyg cyswllt â pholisi cenedlaethol a rhwystredigaeth ag agweddau ar DLICD, roedd nifer ohonynt hefyd wedi nodi arwyddion calonogol bod Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (DGCLI) yn arwain at wella cyfranogi, cydweithio a gweithredu cymunedol annibynnol.³⁹ Yn ein gweithdai, roedd cyfranogwyr wedi nodi bod mwy o gysylltiadau'n cael eu gwneud rhwng sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol a sefydliadau yn y sector cymunedol.

“Mae'r sefyllfa'n wahanol i beth oedd hi bum mlynedd yn ôl; mae gwaith cymunedol yn cael ei werthfawrogi a'i ddeall yn well. Mae mwy o gysylltiadau'n cael eu gwneud. Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol a'r trydydd sector yn gweithio'n well ar gymorth dementia. Fodd bynnag, os nad yw'r gymuned yn teimlo ei bod yn gallu cymryd rhan, wnaiff hi ddim gweithio.”

Mae nifer o resymau posibl dros gredu bod DGCLI yn gweithio'n well i gymunedau yn lleol o'i chymharu â DLICD. Yn gyntaf, nid yw maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi wynebu'r toriadau eithafol a welwyd mewn gwasanaethau cyhoeddus mwy ataliol.⁴⁰

Yn ail, ac yn dilyn y pwynt cyntaf yn agos, mae'n ymddangos bod DGCLI wedi'i llunio'n fwy penodol i ddelio â chyni a'r heriau economaidd-gymdeithasol sy'n codi ohono.⁴¹ Agwedd allweddol ar hyn yw bod dull gweithredu'r Ddeddf yn un ataliol, yn hytrach na gwellhaol, sy'n rhoi lle pwysig i waith yn y gymuned, gan gydnabod ei allu i leihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus.

Yn olaf, ac yn bwysicaf o bosibl, mae DGCLI yn rhoi dyletswyddau cryfach a chliriach ar gyrff cyhoeddus i gydweithio a chydgyhyrchu atebion gyda phobl a sefydliadau cymunedol. Yn benodol, mae adran 16 o'r Ddeddf yn gofyn i awdurdodau lleol hyrwyddo datblygiad mentrau cymdeithasol a sefydliadau neu drefniadau cydweithredol yn eu hardaloedd i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo camau i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth gynllunio a rhedeg y ddarpariaeth honno, ac i dynnu sylw at y gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol

³⁹ Sef y ddyletswydd ar awdurdodau lleol yn [adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\)](#) i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector ac egwyddorion craidd y Ddeddf sy'n gofyn i gyrff cyhoeddus ganolbwyntio ar lesiant, pobl, partneriaethau a mesurau atal.

⁴⁰ Dros y 5-6 mlynedd diwethaf, mae gwariant y GIG wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, ac mae gwariant llywodraeth leol ar wasanaethau cymdeithasol wedi'i ddiogelu'n gymharol dda dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, cafwyd toriadau mewn meysydd gwariant mwy ataliol, fel 'cymorth cymunedol', o fwy na 40%, [Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 2017, Austerity and local government](#), t.2-4

⁴¹ Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, 2019,

[Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#), t. 14-15: Roedd gwahanol bapurau gwyn a gyfrannodd at lunio DGCLI wedi canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, a nodwyd bod, 'angen newid fel bod gwasanaethau cymdeithasol yn gallu ymateb yn well i amgylchiadau cymdeithasol a theuluol cyfnewidiol ac anghenion gofal, darpar anghenion, disgwyliadau a galwadau cyfnewidiol'. Mae'r cyfyngu disgwylidiedig ar y sefyllfa ariannol yn arwain at yr angen i ddewis: 'i contractio gwasanaethau neu i ail-feddwl am y dulliau y gellir eu cyflenwi'.

sydd ar gael gan sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r Ddeddf yn darparu diffiniadau wedyn o ystyr 'menter gymdeithasol' a 'sefydliad trydydd sector'.⁴²

Yn wahanol i DLICD, mae DGCLI yn cydnabod ac yn diffinio rhai o'r egwyddorion allweddol a elwir yn weithredu cymunedol ac yn eu defnyddio fel ffordd i gydgyhyrchu gwasanaethau mwy ataliol ar sail anghenion y person a'r gymuned. O ystyried bod llawer o orgyffwrdd o ran uchelgais rhwng y ddwy Ddeddf, mae cyfle i DLICD ddysgu gwersi o elfennau yn y dyletswyddau yn adran 16 o DGCLI er mwyn rhoi gwell cymorth i ddatblygu gweithredu cymunedol ledled Cymru.

Cymunedau a chyrrff cyhoeddus yn cydweithio er mwyn llesiant

Er gwaethaf y nifer mawr o heriau a nodwyd yn yr adroddiad hwn, mae rhai o'r cymunedau a sefydliadau cymunedol y buom yn siarad â nhw wedi dweud bod y cydweithio â chyrrff cyhoeddus yn eu hardal wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf. Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, roedd nifer o'r enghreifftiau a ddarparwyd ganddynt yn rhai mewn lleoliadau gofal cymdeithasol.

Lle mae cymunedau a chyrrff cyhoeddus yn cydweithio'n dda, mae hynny'n aml yn seiliedig ar berthnasoedd unigol a ddatblygwyd dros amser, lle mae sefydliadau cymunedol a swyddogion wedi canfod tir cyffredin. Fodd bynnag, dywedodd cymunedau fod y perthnasoedd hyn yn fregus iawn os oedd newid yn y staff cysylltiedig ac mai'n anaml roeddent yn rhan o ddiwylliant cyrrff cyhoeddus.

Cafwyd profiadau cadarnhaol hefyd o gydweithio ar lefel strategol, ar yr agenda ehangach ar ofal cymdeithasol gan amlaf. Roedd hyn yn cynnwys cydgynhyrchu cynlluniau llesiant, datblygu strategaethau rhanbarthol ar anabledd dysgu, a hyd yn oed cynlluniau lle.

Ond y darlun cyffredinol o hyd yw un lle mai ond yn anaml y bydd gwybodaeth, profiadau a chryfderau cymunedau lleol yn cael eu cydnabod a'u deall, a lle maent yn cael eu hanwybyddu a'u tanbrisiu'n fwriadol gan gyrrff cyhoeddus mewn rhai achosion.

Er hynny, mewn llawer rhan o Gymru mae'r ymateb i'r coronafeirws yn newid y darlun hwn gan greu gwell dealltwriaeth ar draws sectorau.⁴³ Byddai amgylchedd gwaith mwy cydweithredol o'r math hwn yn gallu gwella gweithredu cymunedol yn sylweddol a gallai hyn fod yn hollbwysig yn wyneb dirwasgiad difrifol, cyni pellach a thonnau o heintiau coronafeirws a allai godi yn y dyfodol.

⁴² DGCLI, 2014,

Adran 16 Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnydd wyr a'r trydydd sector

⁴³ People & Work a BCT, Gorffennaf 2020, *Community Responses to COVID; what's been going on?*, t. 4


6. Effaith Cyni

Mae'r effaith o gyni'n ddwfn o hyd ar bobl a chyrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae enciliad y wladwriaeth, y galw cynyddol a chymhlethdod yr anghenion wedi rhoi pwysau enfawr ar nifer mawr o sefydliadau cymunedol yn ogystal â chreu'r angen am ffyrdd newydd o weithio. Mae'r sefyllfa hon wedi arwain at ddatblygu amrywiaeth fwy o weithgareddau cymunedol a mwy o gydgyfwrth. Mae hyn yn creu newid sylfaenol yn y berthynas rhwng sefydliadau cymunedol a chyrff cyhoeddus ac mae hynny, mewn rhai achosion, yn gwella'r cydweithio ar draws sectorau ond yn arwain, mewn achosion eraill, at dyndra, cystadlu ac ymagwedd fyrdymor.

Heriau o ganlyniad i enciliad y wladwriaeth a chynnydd yn y galw

Mae dyfnder y toriadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, ynghyd â thoriadau mewn cyllidebau sydd heb eu datganoli fel budd-daliadau, wedi peri i nifer o gyrff cyhoeddus roi blaenoriaeth i wasanaethau aciwt yn hytrach na dulliau mwy ataliol.⁴⁴

Ffigur 5: Toriadau yng ngwariant gwasanaethau llywodraeth leol yn ôl gwasanaeth, 2009-10 i 2016-17



Mae'r pwysau ar gyllid cyhoeddus wedi bod yn ddwys iawn yn achos awdurdodau lleol, sydd wedi gweld gostyngiad o bron £1 biliwn yn eu cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru er 2009-10.⁴⁵ Mae hyn yn parhau i gael effaith sylweddol ar wariant gwasanaethau mewn meysydd

⁴⁴ New Local Government Network, 2019, [The Community Paradigm: why public services need radical change and how it can be achieved](#), t. 22

⁴⁵ Canolfan Llywodraethiant Cymru, Ifan, G. a Sion, C. 2019, [Cut to the bone? An analysis of Local Government finances in Wales, 2009-10 to 2017-18 and the outlook to 2023-24](#), t.5

anstatudol fel 'cymorth cymunedol' lle cafwyd toriad o fwy na 40% yn y blynyddoedd diwethaf (Ffigur 5).⁴⁶

Mewn termau real, mae hyn wedi arwain at doriadau enfawr mewn gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, yn cynnwys cau 193 o ganolfannau ieuencid a chau un rhan o dair o'r llyfrgelloedd yng Nghymru neu eu trosglwyddo i'w rhedeg gan grwpiau cymunedol a/neu wirfoddolwyr.⁴⁷ Mae hyn wedi rhoi pwysau mawr ar gymunedau, wrth weld y seilwaith cymdeithasol sy'n cynnal gweithredu cymunedol yn diflannu neu'n gorfod cael ei drosglwyddo i grwpiau lleol. Fel y mae ein hymchwil i fapio asedau wedi dangos, mae'r gallu i ymgymryd ag asedau cymunedol yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Felly hefyd y mae gallu a pharodrwydd cynghorau i drosglwyddo asedau; mae rhai ohonynt yn dewis trosglwyddo cyfleusterau lleol i grwpiau cymunedol yn hytrach na'u cau, tra bydd yn well gan eraill eu cau na wynebu'r risg dybiedig o weld yr ased yn cael ei redeg yn wael.

Mae hyn wedi gadael rhai cymunedau heb leoedd i gwrdd, a hynny'n tanseilio gweithredu cymunedol a'r cyfle sydd gan bobl leol i fod yn fwy cysylltiedig. Un amcangyfrif o'r gost o gael cymunedau digyswllt yng Nghymru yw £3 biliwn.⁴⁸

“Heb leoedd i gwrdd, sut allwn ni ddod â chymunedau ynghyd?”

Effaith ychwanegol o'r toriadau hyn yw bod cyrff cyhoeddus yn llai gweladwy ar lefel leol, gan sbarduno'r rhwystredigaeth a diffyg cyswllt a fynegwyd mewn nifer o'n gweithdai. Fodd bynnag, mae nifer mawr yn y sector cymunedol yn cydnabod bod cyrff cyhoeddus yn wynebu penderfyniadau anodd, hyd yn oed os nad ydynt bob amser yn cyd-weld â'r ffordd o wneud y penderfyniadau hyn neu eu rhoi ar waith.

“Mae'r cyngor yn methu am nad oes ganddyn nhw ddigon o arian.”

“Mae'r cyd-destun ehangach yn cael ei ffurfio gan gynydd; mae awdurdodau lleol yn brin iawn o arian; oherwydd hynny, does dim modd ehangu mentrau bach llwyddiannus. Mae prosiectau bach hefyd yn aros o'r golwg ac yn cael eu tanbrisio.”

Ym marn llawer yn y sector cymunedol, mae cyni'n atal ymarfer cynaliadwy ac yn hybu ymagwedd fyrdymor a chystadlu yn hytrach nag atal a chydweithio, yn groes i fwriadau polisi'r Llywodraeth. Gwelir bod ansicrwydd swyddi yn y sector cyhoeddus yn ffactor allweddol sy'n hyrwyddo hyn, drwy gymell cyrff cyhoeddus i gyflawni gwaith yn fewnol yn hytrach na'i roi i sefydliadau yn y gymuned sydd â gwell cysylltiadau, sy'n fwy hyblyg ac yn ennyn mwy o ymddiriedaeth mewn preswylwyr lleol.

Yn ogystal â hyn, un ffordd i ddelio â'r toriadau oedd dogni gwasanaethau cyhoeddus i fwy o raddau er mwyn rheoli'r galw, fel bod dinasyddion yn aml yn gorfod dangos lefel uwch o angen neu ofid i fod yn gymwys i gael gwasanaethau. Fel y gellid disgwyl, yr effaith ar y boblogaeth dlotach, salach a hŷn yng Nghymru oedd cynyddu'r galw a chymhlethdod yr

⁴⁶ Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 2017, [Austerity and local government](#), t.4

⁴⁷ Unison, 2019, [Shocking picture of austerity cuts to services in Wales](#)

⁴⁸ Centre for Economics and Business Research, 2017, [The cost of disconnected communities](#), t. 7

anghenion, a bod problemau tymor hwy yn gwaethygu yn hytrach na chael eu trin yn gynharach pan fydd yn haws (ac yn rhatach) eu datrys.⁴⁹

Mae toriadau a diwygiadau mewn meysydd sydd heb eu datganoli fel nawdd cymdeithasol yn cael effaith ddwys hefyd, gan gyfrannu i'r cylch cythreulig sy'n creu mwy o alw a llai o allu o ganlyniad i fesurau cyni. Mae Conffederasiwn GIG Cymru wedi tynnu sylw at y problemau cymhleth o lawer math sy'n codi o ganlyniad i doriadau mewn budd-daliadau:

“Ceir effeithiau sylweddol ar iechyd a llesiant pobl o ganlyniad i'r newidiadau mewn budd-daliadau a chredyd treth. Mae'r holl ffactorau hyn – mwy o straen a gorbryder, bwyta'n wael, byw mewn tai heb wresogi digonol, straen ar berthnasoedd personol, a diffyg cymdeithasu a bod yn llai gweithgar – yn creu goblygiadau hirdymor i iechyd. Mae'r rhain, yn eu tro, yn debygol o arwain at yr angen am driniaeth, gofal neu gymorth hirdymor, gan roi pwysau ychwanegol ar y GIG a gwasanaethau cymdeithasol.”⁵⁰

Newid yn rôl sefydliadau cymunedol

O ganlyniad i gyny a'r pwysau yn ei sgil a ddisgrifiwyd uchod, mae sefydliadau cymunedol wedi wynebu heriau a newidiadau sylweddol. Mae nifer o'r pwysau hyn yn cynyddu'r cyfrifoldeb a'r galw sydd arnynt heb fod “seilwaith, adnoddau, cymorth a sgiliau i'w galluogi i wneud y gwaith”.

“Dyw hi ddim yn iawn bod y gymuned yn dal y slac yn dynn heb ddim neu nemor ddim adnoddau.”

Er bod rhai o'r cymunedau y buom yn siarad â nhw wedi darparu enghreifftiau lle mae cyrff cyhoeddus (yn aml dan ysgogiad adrannau a/neu unigolion rhagweithiol) yn dechrau bod yn fwy ymatebol a chydweithredol, mae'n ymddangos mai eithriadau yw'r rhain.

Un o'r newidiadau pwysig a ysgogwyd gan gyny yw'r cynnydd mewn gweithredu cymunedol a chydgyrff. Ledled Cymru, mae sefydliadau cymunedol yn camu i'r bwlch a adawyd gan gyrff cyhoeddus, yn cynnwys meysydd fel gofal cymdeithasol anffurfiol, gweithgareddau a chyfleusterau i bobl ifanc a hen bobl, defnyddio a diogelu'r amgylchedd a nifer o fathau o gymorth anffurfiol lleol i bobl mewn argyfwng fel cynlluniau dosbarthu bwyd.

“Rydyn ni'n gorfod camu i'r bwlch; gwella parciau lleol, meysydd chwarae a darparu mwy o gymorth i ysgolion.”

⁴⁹ Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2018, [A yw Cymru'n decach?](#), t. 6: Mae'r adroddiad yn awgrymu mai'r canlyniad i gyny a gwanhau'r diogelwch o nawdd cymdeithasol yw bod mwy o bobl yn cael eu tynnu i dlodi a bod anghenion yn mynd yn fwy cymhleth. Mae'r cyfraddau gwahardd o'r ysgol ar gyfer plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn uwch na'r rheini ar gyfer plant eraill, ac mae oedolion a phlant sy'n byw yn yr ardaloedd tlotaf yn profi canlyniadau iechyd gwaeth. Mae disgwyliad oes yr oedolion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn fyrrach na hwnnw sydd gan y rheini sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

⁵⁰ Conffederasiwn GIG Cymru, 2015, [The impact of welfare reform on people's health and well-being](#), t. 9

Wrth ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn, mae'r rhan fwyaf o bobl mewn cymunedau yn eu gweld eu hunain yn gweithio i gwrdd ag anghenion ac uchelgeisiau lleol yn hytrach na dilyn agenda Llywodraeth, hyd yn oed os yw'r ddau'n rhannu uchelgeisiau tebyg.

“Nid ein gwaith ni yw cwrdd â strategaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mater i'r sector statudol yw hwnnw.”

Mae hyn yn amlygu'r rôl gymhleth ond canolog sydd gan weithredu cymunedol fel dolen rhwng beth mae cymunedau am ei gael a'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda nhw wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol.

Mae'r berthynas symbiotig hon yn cynnig cyfle pwysig i bobl, i gymunedau ac i lywodraeth. Mae hyn yn bwysicach nag erioed, gan ystyried y bydd y canlyniadau economaidd a chymdeithasol i'r pandemig coronafeirws yn sicr o ddwysáu'r heriau presennol yn sgil mesurau cyni a hefyd yn creu galw cynyddol a mwy cymhleth am wasanaethau cyhoeddus ymhell i'r dyfodol.^{51 52}

⁵¹ BBC News, 13 Mai, [Coronavirus: Chancellor Rishi Sunak warns of 'significant recession'](#)

⁵² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ebrill 2020, [Coronavirus and the social impacts on Great Britain: 16 April 2020](#)

7. Gweledigaeth a Strategaeth, Argyfwng a Newid

Gwagle polisi

Ers dirwyn y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben yn 2016, ni fu gan Lywodraeth Cymru bolisi cyffredinol ar gyfer cymunedau yng Nghymru ac nid ydynt wedi'u cynnwys chwaith mewn unrhyw bortffolio gweinidogol. O fewn y gwagle hwn, mae gweledigaeth a strategaeth resymegol ar gyfer cymunedau wedi diflannu bron, er bod lle amlwg o hyd mewn gwahanol ddogfennau polisi i'r rhethreg am gefnogi a datblygu cymunedau.

Un enghraifft o hyn (a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn) yw canllawiau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n cynghori cyrff cyhoeddus i ddatblygu cryfderau ac asedau cymunedau (dull seiliedig ar asedau). Ar yr un pryd, mae canllawiau statudol craidd i gyrff cyhoeddus sy'n gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn canolbwyntio ar gynnwys pobl mewn swyddogaeth fwy ymgynghorol i lunio gwasanaethau yn unol â'u hanghenion (dull seiliedig ar ddiffyg). Mae'r olaf yn fwy cyson â gwir natur y Ddeddf, a'r cyntaf yn ddyhead nad yw'n cael ei wireddu'n aml.

Yn yr un modd, mae strategaeth genedlaethol y Llywodraeth, *Ffyniant i Bawb*, yn rhoi pwyslais mawr ar y manteision o gyfranogi mewn penderfyniadau a grymuso cymunedau, ond ychydig a wnaiff i ddatblygu mesurau polisi rhesymegol i wireddu'r buddion o weithredu cymunedol:

“Mae cymunedau'n ffynnu os yw pobl yn gallu chwarae rhan lawn a gweithgar ynddynt i lywio eu hamgylchedd lleol, gan ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Gall pobl gymryd nifer o wahanol rolau yn eu cymunedau, ac mae angen eu grymuso i wneud y pethau sydd wir yn gwneud gwahaniaeth.”⁵³

Y peth agosaf a geir at rymuso cymunedau yw'r strategaeth Cysylltu Cymunedau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Llywodraeth sydd â'r nod o fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol a chryfhau cysylltiadau cymdeithasol. Er hynny, mae'n glir o'r strategaeth – a'r broses ymgynghori ar ei chyfer – ei bod yn canolbwyntio'n bennaf ar ddelio ag unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol, nid grymuso cymunedau.

Mae'r rhagair Gweinidogol i'r strategaeth yn ailadrodd datganiad yn *Ffyniant i Bawb* a all daflu goleuni ar y diffyg eglurder hwn o fewn Llywodraeth:

“Ni all y Llywodraeth greu cymunedau, ond gallwn feithrin amgylcheddau lle caiff y cysylltiadau hyn eu hehangu a'u dyfnhau.”⁵⁴

Yma mae'n ymddangos bod y Llywodraeth yn cymeradwyo'r cysyniad o weithredu cymunedol ac ar yr un pryd yn ymwrthod ag unrhyw gyfrifoldeb am ei ddatblygu. Maent yn iawn wrth ddweud na all y Llywodraeth greu cymunedau – a byddai'r cymunedau y buom yn

⁵³ Llywodraeth Cymru, 2017, *Ffyniant i bawb: y strategaeth genedlaethol*, t. 19

⁵⁴ Llywodraeth Cymru, 2020, *Cysylltu Cymunedau*, t. 4

siarad â nhw yn cytuno'n unfrydol – ond nid yw hynny'n gyfystyr â dweud na allant chwarae rhan fwy cadarnhaol a rhagweithiol i hybu gweithredu cymunedol.

Y diffyg eglurder a gweledigaeth hwn ar lefel polisi, ynghyd â diffyg cyd-ddealltwriaeth o'r hyn y gall gweithredu cymunedol ei gyflawni a'r heriau y mae'n eu hwynebu ar draws Llywodraeth, yw un o'r rhwystrau mwyaf i'w ddatblygu. Ym marn y cymunedau y buom yn siarad â nhw, mae hefyd yn rhwystr i wella canlyniadau llesiant yn lleol ac mae hyn, yn ei dro, yn tanseilio hyder yng ngallu polisi i alluogi pobl i fyw bywydau gwell.

“Mae diffyg cysondeb mewn polisi ac ymarfer; mae Gweinidogion newydd bob amser yn newid pethau dim ond er mwyn newid.”

“Dydyd ni ddim yn gweld newid mewn ymarfer yn unol â pholisïau.”

Argyfwng a newid

Mewn cyfnod o ddim ond chwe mis, mae'r pandemig coronafeirws wedi amlygu'r rôl allweddol y mae gweithredu cymunedol a sefydliadau cymunedol yn ei chwarae mewn datblygu cydnerthedd lleol.

Mae tystiolaeth helaeth a chydabyddiaeth gynyddol bellach fod gweithredu cymunedol wedi bod yn hollbwysig yn ymateb ein cymdeithas i'r pandemig, yn enwedig drwy gynorthwyo'r bobl sydd fwyaf agored i niwed.⁵⁵ Mae tystiolaeth hefyd yn dangos y byddai datblygu gallu cymunedol a meithrin mwy o gydweithio ar draws sectorau yn gallu chwarae rhan hollbwysig yn ein hadferiad hirdymor ar ôl yr argyfwng hwn. Byddai hefyd yn gallu helpu i adeiladu cymdeithas iachach a mwy cynaliadwy yn unol â dyheadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.⁵⁶

Mae adroddiad diweddar gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn ategu hyn, gan argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal ac yn datblygu gweithredu cymunedol yn ei strategaeth adfer ar ôl COVID:

“Mae cyfle i greu gwaddol o gydweithio cymunedol. Byddai cynnal ymdeimlad o alluedd cymunedol yn gallu helpu i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae angen canolbwyntio o'r newydd ar adnabod a chydweithio â dylanwadrwyd mewn cymunedau lleol er mwyn deall sut mae newid yn digwydd ym mhob lle.”⁵⁷

Yn ogystal â hyn, gwelwyd gwelliant sylweddol yn y cyd-ddealltwriaeth, y penderfynu a'r cydweithio rhwng cymunedau a chyrff cyhoeddus yn sgil yr argyfwng.⁵⁸ Mewn sawl rhan o Gymru, mae grwpiau cymunedol wedi galluogi'r sector cyhoeddus i ddarparu ymateb mwy

⁵⁵ New Local Government Network, Gorffennaf 2020, [Communities vs. Coronavirus](#), t.8

⁵⁶ Ibid, t. 29

⁵⁷ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Gorffennaf 2020, [Cynllunio ar gyfer Adferiad Ffyniannus, Cyfartal a Gwyrdd ar ôl y pandemig Coronafeirws](#), t. 15

⁵⁸ People & Work a BCT, Gorffennaf 2020, [Community Responses to COVID; what's been going on?](#), t. 4

effeithiol. Mae arolwg gan New Local Government Network (sy'n cynnwys Cymru) yn dangos bod mwyafrif helaeth y penaethiaid cyngor (96%) o'r farn bod y cyfraniad gan grwpiau cymunedol i ymdrechion eu cynghorau ar COVID-19 wedi bod yn 'bwysig' neu'n 'bwysig iawn'.⁵⁹

Ar yr un pryd, mae grwpiau cymunedol wedi bod o dan bwysau aruthrol yn y misoedd diwethaf, ac mae nifer ohonynt yng Nghymru wedi gorfod cau eu drysau a therfynu eu gwasanaethau.⁶⁰ Bydd y flwyddyn nesaf yn dyngedfennol o ran eu gallu i oroesi, yn enwedig wrth i'r chwistrelliad cyntaf o gyllid argyfwng COVID ddod i ben.

Dyma pam y mae mor bwysig bod cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer ar ôl y pandemig COVID yn cydnabod y cyfraniad syfrdanol gan gymunedau wrth ymateb i'r argyfwng, ac yn gwneud yn fawr o'r awydd cynyddol am weithredu cymunedol ymysg y cyhoedd a'r amgylchedd gwell ar gyfer cydweithio â chyrff cyhoeddus.

⁵⁹ NLGN, 2020, [Leadership Index Survey](#)

⁶⁰ Sefydliad Bevan a Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, Gorffennaf 2020, *Charity and community group responses to COVID 19 in the Merthyr Tydfil Borough*
BCT a People & Work, Mehefin 2020, *Community Responses to COVID; what's been going on?*

8. Polisiâu ar gyfer Gweithredu Cymunedol

Mae uchelgais Llywodraeth Cymru i wella llesiant drwy gydweithredu gwell rhwng cyrff cyhoeddus a dinasyddion yn cael ei danseilio'n llwyr gan ei hanallu i lawn ddeall, cefnogi a chydweithio â chymunedau. Mae cyni'n dwysáu'r diffyg hwn yn agenda bolisi'r Llywodraeth drwy gymhlethu'r galw ar gyrff cyhoeddus, gan leihau eu gallu i ymateb yr un pryd. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn amharu ar y ffyrdd cynhwysol, ataliol a chydweithredol o weithio sydd wedi'u rhag-weld yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Drwy'r ymchwil hon, rydym wedi ceisio cael gwell dealltwriaeth o'r ffordd y gallwn wireddu'r ffyrdd hyn o weithio ar gyfer cymunedau a chyrff cyhoeddus drwy ddatblygu dulliau gweithredu cymunedol. Rydym yn nodi tri cham polisi allweddol i wneud hyn:

- Buddsoddi mewn gweithredu cymunedol a seilwaith cymdeithasol
- Datblygu gweledigaeth a strategaeth genedlaethol wedi'u llunio gan ac ar gyfer cymunedau
- Gwella'r cyd-ddealltwriaeth a'r cydweithio rhwng cymunedau a chyrff cyhoeddus

Buddsoddi mewn gweithredu cymunedol a seilwaith cymdeithasol

Dylid defnyddio arian o gylch nesaf y Cynllun Asedau Segur (DAS) yn y DU i sefydlu Cronfa Cyfoeth Cymunedol i Gymru a fydd yn darparu cyllid hyblyg hirdymor i gymunedau sydd â'r angen mwyaf (mae'r DAS yn darparu arian ychwanegol at achosion da ac ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer gwariant cyhoeddus rheolaidd).

Mae tystiolaeth yn dangos nad yw gweithredu a gallu cymunedol wedi'u dosbarthu'n wastad ledled Cymru, ac mai ardaloedd trefol tlotach sydd leiaf tebygol o elwa ohonynt. Rydym hefyd yn gwybod bod ardaloedd tlotach lle mae lefelau uwch o weithredu cymunedol a seilwaith cymdeithasol yn fwy tebygol o brofi gwell canlyniadau iechyd a llesiant, cyfraddau cyflogaeth uwch a lefelau is o dlodi plant nag y mae ardaloedd tlotach lle nad yw'r rhain ar gael.

Rydym yn cynnig bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r arian ychwanegol o Gynllun Asedau Segur (DAS)⁶¹ estynedig Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid hirdymor, hyblyg o dan arweiniad y gymuned i'r cymunedau yng Nghymru sydd â'i angen fwyaf. Roedd y DAS blaenorol wedi dosbarthu mwy na £360 miliwn i achosion da ledled y DU drwy ddefnyddio arian o gyfrifon segur mewn banciau a chymdeithasau adeiladu. Yng Nghymru, roedd cyfanswm o tua £14 miliwn wedi'i ddosbarthu i fentrau i ddelio â diweithdra ieuencid a'r newid yn yr hinsawdd.⁶² Fodd bynnag, byddai'r DAS

⁶¹ Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon/Swyddfa Cymdeithas Sifil/Trysorlys EM, 2020, [Consultation on expanding the dormant assets scheme](#)

⁶² Roedd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol wedi dosbarthu cyllid DAS drwy ei rhaglenni [Ar y blaen](#), [Ar y blaen 2](#) a [Camau Cynaliadwy](#).

estynedig (sy'n cynnwys asedau segur fel stociau, cyfrannau a phensiynau) yn gallu rhyddhau cyllid o hyd at £2 biliwn at achosion da.⁶³ O dan y cynlluniau presennol ar gyfer DAS, mae Llywodraeth Cymru yn cadw ei rôl o bennu'r 'cyfeiriad' cyffredinol ar gyfer dyrannu'r cyllid hwn gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (y corff cyllido dynodedig). Rydym yn cynnig y dylai'r arian o'r DAS estynedig gael ei roi mewn cronfa gwaddol i ddarparu cymorth hyblyg a chynaliadwy i weithgarwch yn y gymuned, ochr yn ochr â chyllid DAS parhaus ar gyfer y cynlluniau presennol a ddisgrifiwyd uchod. Mae'n bwysig nodi bod cyllid DAS yn arian ychwanegol at achosion da ac na ellir ei ddefnyddio ar gyfer gwariant cyhoeddus rheolaidd.

Cyflwyno deddfwriaeth newydd i gynyddu'r hawliau sydd gan sefydliadau cymunedol i brynu, lesio, rheoli neu ddefnyddio tir ac adeiladau sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus (wedi'i seilio ar y patrwm yn rhannau o Ddeddf Grymuso Cymunedol yr Alban).

Mae ein hymchwil i fapio asedau yn dangos bod yr amrywiaeth gynyddol o seilwaith cymdeithasol sy'n cael ei redeg gan y gymuned yng Nghymru yn gallu gwella llesiant a chyfleoedd pobl leol a chymunedau. Ond mae'r cyfraddau ar gyfer Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru, ac mae'n ymddangos mai nifer bach o awdurdodau lleol sy'n dilyn y polisi hwn mewn ffordd ragweithiol. Lle maent yn gwneud hynny, ceir adroddiadau niferus gan sefydliadau cymunedol am y cyfnodau hir y mae hyn yn ei gymryd ac am gymhlethdod y broses, sy'n cael ei llesteirio'n aml yn ôl pob golwg gan ddiffyg gallu ac eglurder.

Mewn adroddiad diweddar gan Sefydliad Bevan, cafwyd mai yng Nghymru roedd rhai o'r darpariaethau gwannaf yn y DU ar gyfer hawliau perchenogi a rheoli cymunedol. Mae hefyd yn nodi y byddai hawliau gwell a fframweithiau ar gyfer perchnogaeth neu reolaeth gymunedol yn gallu hwyluso mathau newydd o arloesi ac adfywio cymunedol.⁶⁴ Ac er bod canllawiau diweddar gan Lywodraeth Cymru ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol a luniwyd gan Ystadau Cymru yn ceisio gwella'r broses trosglwyddo,⁶⁵ mae nifer o sefydliadau cymunedol y buom yn siarad â nhw yn teimlo o hyd fod ar gymunedau angen hawliau cliriach a chryfach.

Rydym yn cynnig y dylai Cymru adeiladu ar sail rhannau 4 a 5 o Ddeddf Grymuso Cymunedol yr Alban.⁶⁶ Mae rhan 4 yn ymestyn yr hawliau cymunedol presennol yn yr Alban ar gyfer prynu tir trefol a gwledig, drwy ganiatáu i gymunedau gofrestru diddordeb a rhoi'r dewis cyntaf iddynt os rhoddir y tir ar werth. Mae rhan 5 yn cyflwyno Ceisiadau Trosglwyddo Ased, sy'n rhoi hawl i gyrff cymunedol ofyn am brynu, lesio, rheoli neu ddefnyddio tir ac adeiladau sy'n eiddo i gyrff cyhoeddus. Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol gyhoeddi cofrestr o'r tiroedd sy'n eiddo iddynt neu'n cael eu lesio ganddynt, i helpu cymunedau i ganfod eiddo addas. Mewn gwerthusiad cychwynnol o Geisiadau Trosglwyddo Ased, cafwyd bod mwyafrif y

⁶³ DGCMS/Swyddfa Cymdeithas Sifil, 2017, [£2 billion boost set to transform charity and voluntary sector funding](#)

⁶⁴ Sefydliad Bevan, 2020, [Productive community assets: generating the benefits](#), t.8 a'r Crynodeb

⁶⁵ Ystadau Cymru, 2019, [Canllawiau ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol](#)

⁶⁶ Llywodraeth yr Alban, 2017, [Community Empowerment \(Scotland\) Act: summary](#)

ceisiadau'n ymwneud ag asedau fel canolfannau cymunedol, parciau/coetiroedd/gerddi cymunedol, a chyfleusterau chwaraeon/hamdden. Mae'n galonogol bod y gwerthusiad wedi dangos potensial ar gyfer effaith gadarnhaol ar y gwasanaethau lleol sydd ar gael mewn cymunedau mwy difreintiedig am fod dosbarthiad y Ceisiadau Trosglwyddo Ased yn gyfartal rhwng ardaloedd tlotaf a chyfoethocaf yr Alban.⁶⁷

Gwella cronfa'r Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a neilltuo Cyllid Buddsoddi Rhanbarthol yn y dyfodol i sicrhau cymorth refeniw a chyfalaf ar gyfer datblygu gweithredu cymunedol a seilwaith cymdeithasol ar gyfer pob cymuned yng Nghymru.

Sicrhau cefnogaeth i weithredu cymunedol a'r gallu i gynnal seilwaith cymdeithasol sy'n cael ei redeg gan y gymuned yw rhai o'r prif heriau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Yn rhy aml, bydd pobl leol a sefydliadau sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned yn wynebu anawsterau wrth ddatblygu a chynnal y gallu, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i redeg eu hasedau eu hunain a gwasanaethau cymorth lleol. Mae tystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn dangos bod camau i ddatblygu'r rhain yn gallu cryfhau seilwaith cymdeithasol sy'n cael ei redeg gan y gymuned ac y bydd hyn yn arwain at welliant sylweddol yn iechyd, llesiant, cyfleoedd ac economïau'r ardal leol. Roedd ein hymchwil i fapio asedau yn dangos bod yr heriau hyn yn codi mewn nifer mawr o gymunedau mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru, er eu bod yn fwy amlwg yn aml mewn ardaloedd tlotach.⁶⁸

Ar hyn o bryd, mae Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau cyfalaf yn unig i sefydliadau'r sector gwirfoddol a chymunedol i wella cyfleusterau cymunedol.⁶⁹ Rydym yn cynnig y dylid gwella'r gronfa hon drwy gynnwys cyllid refeniw i ddatblygu gweithredu cymunedol yn ogystal â seilwaith cymdeithasol ym mhob ardal yng Nghymru. Rydym hefyd yn cynnig y dylid gweithredu mewn ffordd debyg wrth gynllunio ar gyfer Cyllid Buddsoddi Rhanbarthol newydd.⁷⁰ Mae adroddiad diweddar gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn rhoi pwys ar y flaenoriaeth hon, gan argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cadw ac yn datblygu gweithredu a chydnerthedd cymunedol yn ei strategaeth ar gyfer adfer ar ôl y pandemig coronafeirws.⁷¹

⁶⁷ Prifysgol Glasgow Caledonian, 2019, [Review of Asset Transfer Requests Annual Reports: Summary](#)

⁶⁸ BCT et al, *Mapping Community Assets in Wales*, t. 34

⁶⁹ Llywodraeth Cymru, [Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol](#), 2019

⁷⁰ Llywodraeth Cymru, [Fframwaith buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru](#), 2020

⁷¹ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Gorffennaf 2020,

[Cynllunio ar gyfer Adferiad Ffyniannus, Cyfartal a Gwyrdd ar ôl y pandemig Coronafeirws](#), t. 15

Datblygu gweledigaeth a strategaeth genedlaethol gan gymunedau ac ar eu cyfer

Datblygu strategaeth dan arweiniad Gweinidog i adeiladu cymunedau cryfach, gan wneud defnydd o arbenigedd sefydliadau cymunedol presennol.

Dylai'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gynnal ymchwiliad i'r rhwystrau a chyfleoedd i weithredu cymunedol yng Nghymru.

Er bod nifer mawr o gyfeiriadau at 'gymunedau' mewn polisi, nid oes cyfrifoldeb gweinidogol na strategaeth gyffredinol ar hyn o bryd ar gyfer cymunedau. Yn hytrach, mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru wedi'i ddiffinio i raddau helaeth gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r uchelgeisiau sydd ynddi ar gyfer mwy o gyfranogi gan ddinasyddion a gwella llesiant. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn dangos nad yw'r fframwaith bras yn DLICD yn ddigon i newid ffyrdd sefydledig o weithio ac arferion diwylliannol yn y sector cyhoeddus. Mae'r arferion hyn yn peri i lawer o gymunedau deimlo'n ymylol ac annibynadwy, er bod nodau sefydliadau cymunedol a llywodraeth yn aml yn cyd-fynd.

Wrth i ni godi allan o'r pandemig coronafeirws, rydym yn cynnig y dylai'r Llywodraeth fanteisio ar gefnogaeth gyffredinol y cyhoedd i weithredu cymunedol ac y dylai ddatblygu bargaen newydd i gymunedau yng Nghymru. Y man cychwyn fyddai creu cyfrifoldeb gweinidogol dros y maes gwaith hwn a llunio strategaeth i gryfhau cymunedau gan sicrhau cyfranogi helaeth gan gymunedau. Ochr yn ochr â hyn, dylai'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol gynnal ymchwiliad i'r rhwystrau a chyfleoedd i weithredu cymunedol yng Nghymru.

Nid ydym yn gofyn i'r Llywodraeth greu cymunedau na diffinio neu bennu beth ddylent fod. Yn hytrach, rydym yn cynnig y dylai cymunedau a Llywodraeth gydgyhyrchu strategaeth sy'n cyfleu gweledigaeth o'r ffordd orau y gall Llywodraeth eu helpu i greu dyfodol mwy cydnerth a ffyniannus i bobl leol. Credwn fod hyn yn gwbl bosibl drwy ddefnyddio rhwydweithiau presennol y sefydliadau cymunedol ledled Cymru sydd ar hyn o bryd yn helpu i ganfod 'llais y gymuned' ac sydd eisoes yn ei gynnwys mewn polisi.⁷² Mae nifer mawr o syniadau a chynigion wedi'u cyflwyno eisoes ym mhob rhan o'r DU ynghylch ffyrdd gwell i Lywodraethau ddeall a hyrwyddo cryfderau ac asedau cymunedau ar ôl y pandemig coronafeirws.⁷³

⁷² Mae BCT yn rhedeg rhwydwaith o fwy na 120 o sefydliadau cymunedol sy'n hybu gweithgareddau dysgu ac eiriolaeth. Mae Talwrn yn gynghrair o sefydliadau gwirfoddol o lawer math sydd â'u dibenion eu hunain ac sy'n cynorthwyo pobl a chymunedau yng Nghymru.

⁷³ Rhai enghreifftiau yw [cynigion Carnegie UK Trust](#) ar gyfer diwygio'r berthynas rhwng dinasyddion a'r wladwriaeth er mwyn rhoi gwell cymorth i bobl a chymunedau i sicrhau newid cadarnhaol iddyn nhw eu hunain a [syniadau New Local Government Network](#) am ffyrdd i ddatgloi pŵer y gymuned gan wasanaethau cyhoeddus a chymunedau.

Cynnwys dyletswydd newydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyrff cyhoeddus hyrwyddo rôl sefydliadau cymunedol a datblygu seilwaith cymdeithasol i'w redeg gan y gymuned.

Fel y nodwyd uchod, mae potensial mawr yn uchelgeisiau cyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer hwyluso gweithredu a chydweithio cymunedol yn y tymor hir. Fodd bynnag, nid yw DLICD yn addas ar ei ffurf bresennol i wireddu'r uchelgeisiau hyn. Yn yr un modd, nid yw uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer 'seilwaith cymunedol sy'n cefnogi cymunedau cysylltiedig' yn gwneud nemor ddim i rymuso cymunedau i gymryd camau eu hunain.⁷⁴ Mae'r heriau hyn wedi dwysáu oherwydd mesurau cyni, poblogaeth sy'n heneiddio ac anghenion mwy cymhleth mewn meysydd fel iechyd meddwl, fel bod straen ychwanegol ar gyrff cyhoeddus ac ar gymunedau.

Rydym yn cynnig y dylid rhoi mwy o bwyslais ar rôl sefydliadau cymunedol yn DLICD. Byddai hyn wedi'i foddelu ar fesurau tebyg yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Fel y mae'r adroddiad hwn wedi dangos, mae DGCLI yn cael ei defnyddio gan gyrff cyhoeddus a chymunedau i hybu cydweithio ac arloesi yn wyneb heriau fel cyni ac anghenion mwy cymhleth. Mae'r ddyletswydd yn adran 16 o DGCLI yn gofyn i awdurdodau lleol hyrwyddo datblygiad mentrau cymdeithasol a sefydliadau neu drefniadau cydweithredol yn eu hardaloedd er mwyn darparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Mae hefyd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo camau i gynnwys pobl y darperir gofal a chymorth neu wasanaethau ataliol ar eu cyfer wrth gynllunio a rhedeg y ddarpariaeth honno ac i roi gwybod am y gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol sydd ar gael gan sefydliadau'r trydydd sector.⁷⁵

Cyflwyno Dangosydd Llesiant Cenedlaethol newydd i fesur seilwaith cymdeithasol sy'n cael ei redeg gan y gymuned yn ôl ardal awdurdod lleol.

Ar hyn o bryd, nid oes gan Lywodraeth ffordd i fesur gweithredu cymunedol yng Nghymru. Roedd sefydliadau cymunedol y buom yn siarad â nhw wedi tynnu sylw dro ar ôl tro at yr angen am ddulliau mesur cyson i ddangos maint a gwerth y sector cymunedol. Mae 46 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond nid yw'r un ohonynt yn mesur datblygu cymunedol lleol er mai un o saith nod llesiant y Ddeddf yw 'Cymru o gymunedau cydlynus'.⁷⁶ Dangosydd Llesiant Cenedlaethol 23 (canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol) yw'r ffordd agosaf ar hyn o bryd i fesur gweithredu cymunedol ar lefel genedlaethol.

Rydym yn cynnig y dylai'r Llywodraeth gyflwyno dangosydd llesiant cenedlaethol newydd sy'n cofnodi maint a gwerth seilwaith cymdeithasol sy'n cael ei redeg gan y

⁷⁴ Llywodraeth Cymru, 2020, [Cysylltu Cymunedau](#), t. 26

⁷⁵ DGCLI, 2014,

[Adran 16 Hyrwyddo mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnydd wyr a'r trydydd sector](#)

⁷⁶ Llywodraeth Cymru, 2019, [Llesiant Cymru: 2019](#)

gymuned ledled Cymru. Gellid cysylltu hyn â'r argymhelliad dilynol sy'n cynnig y dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fapio seilwaith cymunedol yn eu hardal.

Gwella'r cyd-ddealltwriaeth a'r cydweithio rhwng cymunedau a chyrrff cyhoeddus

Creu Cronfa Her Cymunedau o £5 miliwn (ar sail model yr Economi Sylfaenol) i roi prawf ar ffyrdd i ddatblygu cydweithio a chyd-ddealltwriaeth rhwng cymunedau a chyrrff cyhoeddus.

Datblygu canllawiau arfer da i gyrff cyhoeddus ar gydweithio ac adeiladu cymunedau cryfach mewn partneriaeth â CLILC ac Archwilio Cymru.

Roedd sefydliadau cymunedol ledled Cymru wedi dweud wrthym fod ffyrdd o weithio'r sector cyhoeddus yn rhwystr mawr wrth geisio mwy o gydweithio a chyfranogi gan y gymuned. Yn aml, mae eu profiadau o weithio gyda chyrrff cyhoeddus yn amlygu cyfathrebu gwael, diffyg ymddiriedaeth, amharodrydd i fentro, gweithio digyswllt ac, mewn rhai achosion, rhagfarn broffesiynol. Cafwyd adlais o'r profiadau hyn mewn adolygiadau diweddar gan Archwilio Cymru a gafodd mewn llawer achos fod diffyg ymwneud a chydweithio â chymunedau a'u sefydliadau ar ran cyrrff cyhoeddus.⁷⁷ Mae hyn yn niweidiol i'r nodau cyffredin sydd gan Lywodraeth a chymunedau i sicrhau mwy o gyfranogi gan bobl a chymunedau a gwella llesiant.

Rydym yn cynnig y dylai'r Llywodraeth greu Cronfa Her Cymunedau o £5 miliwn i wella'r cydweithio ar draws sectorau mewn ardaloedd lleol ledled Cymru ac i hybu ffyrdd newydd o gydweithio. Gellid ei defnyddio i gael gwell dealltwriaeth o'r arferion da presennol ac i dreialu dulliau seiliedig ar leoedd ac asedau, cyllidebu a phenderfynu cyfranogol, lleihau biwrocratiaeth a gweithio digyswllt, secondio rhwng sectorau, mentro cadarnhaol a gwella cyfathrebu. Byddai'n dilyn patrwm Cronfa Her yr Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru ac yn arbrofol ei natur ac yn cydnabod nad oes 'union dempled y gallwn ei aildefnyddio mewn cymunedau yng Nghymru'.⁷⁸ Yn yr un modd â gweithredu cymunedol, nid yw'r economi sylfaenol wedi derbyn sylw mewn polisi cyhoeddus yn y blynyddoedd diwethaf.⁷⁹ Mae synergedd hefyd rhwng y ddau o ran adeiladu cyfoeth lleol drwy newid arferion caffael a datblygu angorau cymunedol.⁸⁰ Ochr yn ochr â'r Gronfa Her, rydym yn cynnig y dylai canllawiau arfer

⁷⁷ Archwilio Cymru, Mai 2020,

[Felly, beth sy'n wahanol? Canfyddiadau Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yr Archwilydd Cenedlaet hol](#), t.42

⁷⁸ Llywodraeth Cymru, 2019, [Yr economi sylfaenol](#), yr economi sylfaenol yw'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt a'r rhai sy'n ein cadw ni'n ddiogel, yn gadarn ac yn waraidd. Mae gwasanaethau gofal ac iechyd, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth a manwerthu ar y stryd fawr i gyd yn enghreifftiau o'r economi sylfaenol.

⁷⁹ Sefydliad Bevan, 2017, [Wales' Foundational Economy: why it's time for action](#)

⁸⁰ BCT, 2018, [Our Local Economies](#)

da gael eu datblygu ar gyfer cyrff cyhoeddus, i hyrwyddo ffyrdd o gydweithio a chryfhau cymunedau.

Ei gwneud yn ofynnol bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn mapio seilwaith sy'n cael ei redeg gan y gymuned leol yn rhan o'u hasesiad o lesiant lleol, ochr yn ochr â dyletswydd i gydweithio â seilwaith cymdeithasol presennol.

Roedd nifer o'r cymunedau y buom yn siarad â nhw wedi awgrymu y dylid mapio'r asedau a gwasanaethau cymunedol yn ardal pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn hwyluso gwaith mewn partneriaeth a chydgyssylltu rhwng sefydliadau cymunedol a chyrff cyhoeddus. Mae hyn yn adlewyrchu consensws ehangach ymysg cymunedau fod nifer mawr o gyrff cyhoeddus sydd heb ddealltwriaeth briodol o seilwaith cymunedol presennol ac nad ydynt yn ei ystyried wrth wneud penderfyniadau.

Rydym yn cynnig y dylid ehangu'r ddyletswydd y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei rhoi ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i asesu llesiant y bobl mewn ardal gymunedol er mwyn cynnwys asesiad o'r seilwaith cymunedol presennol a disgwyliad am gydweithio. Roedd WCVA wedi gwneud argymhelliad tebyg o'r blaen ar gyfer Byrddau penodol ond heb awgrymu dyletswydd gyffredinol.⁸¹ Mae'r canllawiau statudol presennol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyfeirio at y cyfle sydd gan y Byrddau 'i nodi cryfderau ac asedau'r bobl a'u cymunedau' yn eu hasesiad, yn cynnwys y defnydd o'r 'sbectrwm eang o arbenigedd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol [sydd] ar gael iddynt i dynnu arno, megis fforymau ieuenctid, grwpiau cymunedol, fforymau pobl hŷn ...'⁸² Drwy ei gwneud yn ddyletswydd i fapio seilwaith cymdeithasol sy'n cael ei redeg gan y gymuned, byddai modd gwireddu'r dyhead hwn a chreu mwy o gyd-ddealltwriaeth a chydweithio rhwng cymunedau a chyrff cyhoeddus. Mewn llawer rhan o Gymru – ond nid ym mhob man – mae'r ymateb i'r pandemig coronafeirws eisoes wedi arwain at well cyd-ddealltwriaeth a phenderfynu rhwng sectorau. Byddai'r ddyletswydd newydd yn cynyddu'r momentwm cadarnhaol hwn.

⁸¹ WCVA, Grymuso Cymunedau, 2018, t. 28

⁸² Llywodraeth Cymru, 2016, DLICD Canllawiau ar gyfer byrddau gwasanaethau cyhoeddus

9. Casgliad

Mae Cymru'n gartref i nifer cynyddol ac amrywiol o asedau a dulliau gweithredu cymunedol sy'n gwella llesiant, cydnerthedd a chyfleoedd i bobl leol bob dydd. Mae gwerth y gwaith hwn wedi'i ddangos y tu hwnt i bob amheuaeth yn y misoedd diwethaf wrth i gymunedau ledled y wlad gymryd camau i helpu ei gilydd, mewn partneriaeth yn aml â'r sector cyhoeddus.

Er hynny, cyn yr argyfwng presennol, roedd gwerth gweithredu cymunedol yn cael ei anwybyddu'n aml, a'i gymryd yn ganiataol gan lywodraeth genedlaethol a lleol, heb ddarparu adnoddau digonol ar ei gyfer. Ar yr un pryd, mae nifer mawr o gymunedau lleol wedi wynebu anawsterau, yn enwedig y rheini sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf yn gymdeithasol ac yn economaidd. O ganlyniad i fesurau cyni a diwylliant yn y sector cyhoeddus sy'n 'gwneud pethau dros gymunedau, nid gyda nhw', mae'r gallu a'r ymddiriedaeth mewn cymunedau wedi'u herydu a seilwaith cymdeithasol wedi lleihau.

Mae cyfle gan Lywodraeth Cymru i gwrdd â'r heriau hyn drwy ddatblygu'r cryfderau a'r asedau sydd eisoes yn bod yn ein cymunedau. Byddai amgylchedd polisi cyhoeddus mwy cefnogol i weithredu cymunedol yn gallu helpu hefyd i wireddu uchelgeisiau'r Llywodraeth o ran llesiant a chynnwys dinasyddion, yn ogystal â hybu adferiad gwyrddach.

Mae hyn yn bwysicach nag y bu erioed o ystyried maint yr heriau a wynebwn. Mae'r adroddiad hwn yn gam cyntaf tuag at weledigaeth hirdymor ehangach o Gymru lle mae gan bob cymuned yr adnoddau a'r dylanwad sydd eu hangen i feithrin ei gallu cymunedol a datblygu a rhedeg ei seilwaith cymdeithasol ei hun.